Senedd Cymru
**Busnes y Senedd**

# Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd

## Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Hydref 2023

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Cymru:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Busnes y Senedd**

# Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd

## Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Hydref 2023

## Canllawiau ar gynnal busnes y Senedd yn briodol

Wedi eu cyhoeddi gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17 yn dilyn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes, dylid ystyried y canllawiau ochr yn ochr â'r hyn a ganlyn:

Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

Canllawiau i'r Aelodau ar y Cyfarfod Llawn

Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid

Canllawiau ychwanegol ar weithredu trafodion y Cyfarfod Llawn yn ystod y Cytundeb Cydweithio

# Cynnwys

**1. Darpariaethau cyffredinol: Cyflwyno a gosod.......7**

Derbynioldeb busnes.......7

Gweithdrefnau cyflwyno.......7

Cymraeg a Saesneg.......7

Cyfnodau hysbysu.......7

Datgan buddiannau ariannol.......9

Tynnu busnes yn ôl.......9

**2. Cwestiynau.......11**

Cwestiynau llafar ac ysgrifenedig.......11

Cwestiynau amserol.......17

Cwestiynau brys.......18

Cwestiynau'r arweinwyr a'r llefarwyr.......20

**3. Datganiadau.......22**

Datganiadau llafar.......22

Datganiadau 90 Eiliad.......26

Datganiad ar y gyllideb ddrafft.......28

Datganiadau ysgrifenedig.......29

**4. Cynigion a gwelliannau.......30**

Cyffredinol.......30

Tynnu gwelliant yn ôl.......36

Confensiynau ar gyfer ymdrin â chynigion yr wrthblaid a gwelliannau i gynigion o'r fath.......37

Dadleuon Brys.......38

Dadleuon a gynigiwyd gan Aelodau unigol ........ 41

Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd: pleidleisio yn nhrafodion y Siambr (canllawiau'r Llywydd) ........ 46

Amser ar gyfer Dadleuon ........ 48

**5. Datganiadau Barn ........ 55**

Cynnwys y Datganiadau ........ 55

**6. Gosod dogfennau ........ 57**

Gweithdrefnau gosod ........ 57

Mynediad at ddogfennau ........ 57

Dogfennau a ddosberthir er gwybodaeth ........ 57

**7. Gweithdrefnau ac arferion perthnasol eraill ........ 58**

Egwyddorion ymddygiad yn y Siambr ........ 58

Defnyddio deunydd clyweledol ........ 62

Pleidleisio drwy ddirprwy ........ 63

**8. Deiliaid Swyddi ........ 68**

Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ........ 68

Enwebu'r Prif Weinidog ........ 70

Ethol Cadeirydd Pwyllgor ........ 72

**9. Grwpiau gwleidyddol ........ 75**

**Atodiad 1 – ffurf a chynnwys cwestiynau ........ 76**

**Atodiad 2 – Enghreifftiau o gwestiynau agored a gyflwynwyd.... 78**

# 1. Darpariaethau cyffredinol: Cyflwyno a gosod

## Derbynioldeb busnes

**1.** Y Llywydd yw'r awdurdod terfynol ar dderbynioldeb busnes, ond yn ymarferol mae'n dirprwyo'r awdurdod hwn i'r Swyddfa Gyflwyno. Gall y Llywydd apelio penderfyniad y Swyddfa Gyflwyno i wrthod derbyn eitem o fusnes. Nid oes proses ffurfiol ar gyfer apeliadau. Dylai Aelodau gysylltu â'r Llywydd yn uniongyrchol os nad ydynt yn fodlon â phenderfyniad gan y Swyddfa Gyflwyno.

## Gweithdrefnau cyflwyno

**2.** Rhaid i fusnes gael ei gyflwyno drwy System y Swyddfa Gyflwyno.

**3.** Caiff yr Aelodau awdurdodi Aelod arall neu aelod o staff cymorth Aelod i gyflwyno busnes ar eu rhan drwy anfon e-bost at SwyddfaGyflwyno@senedd.cymru. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn sicrhau y rhoddir mynediad cyn gynted â phosibl, a bydd yn cadw rhestr o'r awdurdodiadau a roddwyd gan bob Aelod.

**4.** Os cyflwynir unrhyw eitem o fusnes yn enw mwy nag un Aelod, rhaid i bob Aelod gymeradwyo'r eitem drwy System y Swyddfa Gyflwyno.

## Cymraeg a Saesneg

**5.** Rhaid i unrhyw ddogfen a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir gan y Llywydd, y Comisiwn, y Llywodraeth, unrhyw bwyllgor neu Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd gael ei osod neu ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. (Rheol Sefydlog 15.4)

## Cyfnodau hysbysu

**6.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn pennu cyfnodau rhybudd ar gyfer cyflwyno eitemau busnes penodol. Rhaid cadw at y cyfnodau rhybudd a ganlyn oni bai bod y Rheolau Sefydlog yn nodi fel arall:

i. **Cwestiynau llafar**: Rhaid i gwestiynau i'r Prif Weinidog gael eu cyflwyno o leiaf dri diwrnod gwaith cyn eu bod i gael eu hateb; rhaid i gwestiynau i Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a'r Comisiwn

gael eu cyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn eu bod i gael eu hateb (Rheol Sefydlog 12.59);

ii. **Cwestiynau ysgrifenedig**: O leiaf bum diwrnod gwaith cyn eu bod i gael eu hateb (Rheol Sefydlog 14.3);

iii. **Cynigion**: O leiaf bum diwrnod gwaith cyn eu trafod (Rheol Sefydlog 12.20);

iv. **Gwelliannau**: O leiaf dri diwrnod gwaith cyn bod y cynnig i'w drafod (Rheol Sefydlog 12.22); a

v. Ychwanegu enw at gynnig neu welliant: Unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn bod y cynnig i fod i gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn. (Rheolau Sefydlog 12.21 a 12.22(ii)).

*Sylwer: Mae rheolau gwahanol yn gymwys i ddiwygiadau a wneir i Filiau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm clercio sy'n cefnogi'r Bil dan sylw.*

**7.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu bod diwrnod gwaith yn cynnwys unrhyw ddiwrnod oni bai ei fod yn:

i. Dydd Sadwrn neu ddydd Sul;

ii. Noswyl Nadolig, dydd Nadolig, dydd Iau Cablyd neu ddydd Gwener y Groglith;

iii. Diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru; neu

iv. Unrhyw ddiwrnod a bennir yn ddiolchgarwch neu'n ddiwrnod o alaru cyhoeddus.

**8.** Yn ymarferol, os yw cynnig am gael ei drafod yn ystod Cyfarfod Llawn dydd Mawrth, y dylai'r cynnig ddod i sylw'r Swyddfa Gyflwyno yn ystod ei oriau gwaith cytunedig heb fod yn hwyrach na'r dydd Mawrth blaenorol. Rhaid i welliant i'r cynnig hwn gyrraedd y Swyddfa Gyflwyno yn ystod ei oriau gwaith cytunedig heb fod yn hwyrach na'r dydd Iau blaenorol. Pan fydd gwyliau banc ac ati yn amharu ar hyn, bydd y terfyn amser hwn yn newid a bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod i'r Aelodau am unrhyw newidiadau o'r fath.

**9.** Mae derbyn unrhyw ddogfen neu fusnes gan y Clerc (yn y Swyddfa Gyflwyno) ar ddiwrnod gwaith yn ystod oriau cytunedig (gan gynnwys derbyn ar ffurf electronig) yn gyfystyr â gosod y ddogfen neu gyflwyno'r busnes (yn ôl fel y

digwydd) (Rheol Sefydlog 15.5). Mae'r Llywydd wedi dyfarnu mai'r amser y bydd busnes yn cyrraedd y Swyddfa Gyflwyno sydd i'w ystyried, yn hytrach na'r amser y caiff busnes ei anfon. Bydd unrhyw fusnes sy'n cyrraedd y tu allan i'r oriau gwaith cytunedig ei gofnodi fel pe bai wedi ei gyflwyno neu ei osod y diwrnod gwaith canlynol.

## Datgan buddiannau ariannol

**10.** Mae'n drosedd o dan **adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** i Aelodau gymryd rhan mewn trafodion y Senedd o unrhyw fath heb gydymffurfio â darpariaethau Rheol Sefydlog 2 sy'n ymwneud â chofrestru a datgan buddiannau. Mae Rheolau Sefydlog 13.8A ac 17.24A hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgan buddiannau perthnasol sy'n ymwneud â hwy neu unrhyw aelod o'r teulu y gallai eraill eu hystyried yn rhesymol i ddylanwadu ar gyfraniad yr Aelod. Felly, wrth gyflwyno busnes, dylai Aelodau o'r Senedd ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt yn y mater dan sylw. Mae lle i wneud hyn ar y ffurflenni perthnasol. Caiff busnes a gyflwynir gyda datganiad o fuddiant perthnasol ei farcio ar y papur trefn. Os oes gan unrhyw Aelod amheuaeth, dylent ofyn am gyngor gan y Swyddfa Gyflwyno neu Gofrestrydd Buddiannau'r Aelodau.

## Tynnu busnes yn ôl

**11.** Caniateir i fusnes gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod neu'r sawl a awdurdodwyd i gyflwyno ar ran yr Aelod, trwy roi rhybudd i'r Swyddfa Gyflwyno drwy e-bost. Mae angen dilyn y rheolau canlynol:

i. Caniateir i **gynigion** gael eu tynnu'n ôl ar unrhyw adeg cyn i'r cynnig gael ei wneud, ond dylid hysbysu'r Swyddfa Gyflwyno o leiaf ddwy awr ymlaen llaw.

ii. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn hysbysu'r Aelodau am unrhyw fusnes a gaiff ei dynnu'n ôl yn electronig. Os yw busnes heb gael ei dynnu'n ôl, caiff Aelod ystyried (fel dewis amgen) peidio gwneud y cynnig neu welliant. Unwaith y bydd cynnig neu welliant wedi ei wneud, dim ond â chytundeb unfrydol y Senedd y gellir ei dynnu'n ôl.

iii. Unwaith y bydd Aelodau wedi ychwanegu eu henw i gynnig neu welliant, gallant hwy, neu'r sawl a awdurdodwyd i gyflwyno ar eu rhan, dynnu'r cynnig neu welliant yn ôl drwy e-bost ar unrhyw adeg cyn

gwneud y cynnig neu welliant, ond dylid hysbysu'r Swyddfa Gyflwyno o leiaf ddwy awr ymlaen llaw.

iv. Mae tynnu **cwestiynau llafar** yn ôl yn amharu ar allu'r Senedd i graffu ar Weinidogion, ac felly ni ddylai Aelodau ond gwneud hynny pan na allant fod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn oherwydd amgylchiadau annisgwyl na ellir eu hosgoi. Bydd y Llywydd yn disgwyl i Aelodau roi rheswm dros dynnu cynnig neu welliant yn ôl. Ni ellir ond tynnu cwestiynau llafar yn ôl cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn. Ni all y Swyddfa Gyflwyno dderbyn unrhyw geisiadau i dynnu'n ôl ar ôl y pwynt hwn a bydd y cwestiwn, yn hytrach, 'heb ei ofyn'.

Ar ôl cael ei hysbysu y caiff cwestiwn llafar ei dynnu'n ôl, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn cadarnhau i'r anfonwr fod y cais i dynnu'r cwestiwn yn ôl wedi ei dderbyn, ac yn hysbysu Is-adran Cabinet Llywodraeth Cymru yn ogystal ag Ysgrifenyddiaeth y Siambr a Chofnod y Trafodion.

Os caiff y cwestiwn ei dynnu'n ôl cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn, dangosir bod y cwestiwn wedi ei dynnu'n ôl ar y rhestr o gwestiynau a gyhoeddir.

v. Caniateir tynnu **cwestiynau ysgrifenedig** yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod oriau gwaith y Swyddfa Gyflwyno cyn y diwrnod y disgwylir iddynt gael eu hateb. Dangosir bod y cwestiwn wedi ei dynnu'n ôl ar y rhestr o gwestiynau a gyhoeddir. Ni ellir trosi cwestiynau ysgrifenedig i gael ateb llafar.

vi. Caiff Aelod dynnu **datganiadau barn** yn ôl heb gyfeirio at unrhyw un o'r sawl sydd wedi tanysgrifio iddynt yn nes ymlaen. Fodd bynnag, os caiff datganiad ei osod ar y cyd gan ddau Aelod neu fwy, rhaid iddynt oll gytuno os yw'r datganiad i'w dynnu'n ôl. Caiff Aelodau hefyd dynnu eu henwau fel tanysgrifwyr i ddatganiad neu unrhyw welliant ar unrhyw adeg.

# 2. Cwestiynau

## Cwestiynau llafar ac ysgrifenedig

### Cyflwyniad

**12.** Ceir darpariaeth yn Rheolau Sefydlog 12 a 14 i Aelodau o'r Senedd ofyn cwestiynau llafar ac ysgrifenedig i'r Prif Weinidog, un o'r Gweinidogion, y Cwnsler Cyffredinol neu Gomisiwn y Senedd am unrhyw fater sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau. Mae'r bennod hon yn egluro diben, ffurf a chynnwys cwestiynau a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

### Diben

**13.** Diben cyflwyno cwestiynau yw cael gwybodaeth neu bwyso am gamau gweithredu. Caiff cwestiynau ac atebion eu cyhoeddi yng **Nghofnod y Trafodion**, sef cofnod swyddogol y Senedd, ac felly maent yn fodd pwysig i Aelodau ddwyn Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd i gyfrif.

**14.** Nid cwestiynau yw'r unig ffordd y gall yr Aelodau gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar natur y wybodaeth a geisir, mae troi at y Gwasanaeth Ymchwil, cyflwyno ceisiadau o dan **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**, neu ysgrifennu'n uniongyrchol at Weinidogion i gyd yn opsiynau sydd ar gael i Aelodau. Gall Clercod atgoffa Aelodau o'r dewisiadau amgen hyn, yn enwedig pan fydd cwestiynau yn groes i'r drefn.

### Categorïau cwestiynau

**15.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn cynnig pedair ffordd o gael atebion i gwestiynau:

- Mae **cwestiynau llafar** yn cael eu cyflwyno gyda'r bwriad o gael ateb ar lafar yn ystod amser a gaiff ei neilltuo ar gyfer cwestiynau llafar mewn Cyfarfodydd Llawn;
- Ni chaiff cwestiynau ysgrifenedig eu hateb ar lafar yn y Cyfarfod Llawn. Cânt eu hateb yn ysgrifenedig ac anfonir yr atebion yn uniongyrchol at yr Aelod a'u cyhoeddi yng Nghofnod y Trafodion wedi hynny;
- Cwestiynau Amserol, a gaiff eu cyflwyno ar fyr rybudd i'w hateb ar lafar yn y Cyfarfod Llawn ond na chaniateir iddynt gael eu gofyn oni bai bod y Llywydd yn fodlon bod y cwestiwn yn ymwneud â mater o

arwyddocâd cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, ac y byddai'n ddymunol cael ymateb cyflym iddo gan y Gweinidogion, a bod y mater dan sylw wedi codi ers i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwestiynau amserol yr wythnos flaenorol fynd heibio;

- Cwestiynau brys, a gaiff eu cyflwyno heb roi hysbysiad yn eu cylch (ond rhaid caniatáu 2 awr rhwng cyflwyno cwestiwn a'i ofyn) i'w hateb yn y Cyfarfod Llawn. Os ydynt yn ymwneud â swyddogaethau'r Llywodraeth, ni chaniateir iddynt gael eu gofyn oni bai bod y Llywydd o'r farn bod y mater o arwyddocâd cenedlaethol brys a bod angen ymateb ar unwaith. Os yw mater yn ymwneud â swyddogaethau Comisiwn y Senedd, mater i'r Dirprwy Lywydd yw barnu hyn.

## Gweithdrefnau – rôl y Llywydd a'r Swyddfa Gyflwyno

**16.** Mae'r Llywydd yn gyfrifol am hwyluso'r gwaith o gyflwyno cwestiynau ac mae gan y Llywydd yr hawl i farnu ynghylch cynnwys a hyd cwestiynau ac a ydynt yn dderbyniol ai peidio (gweler Atodiad 1). Yn ymarferol, mae'r Llywydd wedi dirprwyo'r swyddogaethau hyn i'r Swyddfa Gyflwyno, er mai'r Llywydd yw'r awdurdod terfynol ar faterion o'r fath o hyd.

**17.** Mae'r Aelodau yn gyfrifol am ffurf a chynnwys eu cwestiynau, ond gall clercod y Swyddfa Gyflwyno gynnig cyngor cyfrinachol a diduedd i Aelodau am faterion o'r fath. Mae Atodiad 1 yn egluro'r meini prawf y bydd y Swyddfa Gyflwyno yn eu defnyddio wrth ystyried a yw cwestiynau yn dderbyniol ai peidio. Pan fernir bod cwestiwn yn annerbyniol, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn egluro'r rhesymau pam, a bydd yn rhoi cymorth i newid y cwestiwn lle bo hynny'n bosibl er mwyn iddo gydymffurfio â'r drefn. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn cywiro mân gamgymeriadau o ran gramadeg a drafftio os oes angen.

## Amserlen ar gyfer cwestiynau llafar

**18.** Bydd datgan a chyhoeddi busnes sydd i ddod, yn unol â Rheol Sefydlog 11.11, yn cynnwys dyddiad ac amser cwestiynau sydd i ddod i bob un o'r Gweinidogion, y Cwnsler Cyffredinol neu Gomisiwn y Senedd.

**19.** Ceir darpariaeth yn Rheol Sefydlog 12.56 i'r Prif Weinidog ateb cwestiynau unwaith ym mhob wythnos y bydd y Senedd yn cynnal Cyfarfod Llawn ac i'r Gweinidogion, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Senedd ateb cwestiynau o leiaf unwaith ym mhob pedair wythnos y bydd y Senedd yn cynnal Cyfarfod Llawn. Yn ymarferol, caiff cwestiynau eu cymryd mewn cylch penodol a bennir

gan Lywodraeth Cymru, ar wahân i gwestiynau i'r Comisiwn.  Y Pwyllgor Busnes fydd yn amserlennu'r cylch ar gyfer cwestiynau i'r Comisiwn.

**20.** Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn atgoffa Aelodau ar ddiwedd pob wythnos o'r pleidleisiau ar gwestiynau llafar a gynhelir yr wythnos ganlynol.

**21.** Caiff dyddiadau cyflwyno penodol eu hamserlennu tua diwedd pob prif doriad fel bod modd ateb cwestiynau llafar yn ystod yr wythnos gyntaf yn dilyn toriad. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn creu rhestr o ddyddiadau ac amserau y mae wedi cytuno arnynt â'r Pwyllgor Busnes. Caiff y rhestr ei hanfon drwy e-bost at yr Aelodau.

## Nifer a threfn y cwestiynau

**22.** Nid oes cyfyngiad ar nifer y cwestiynau ysgrifenedig y caiff Aelodau eu cyflwyno yn ystod tymor y Senedd.

**23.** Mae Rheol Sefydlog 12.63 yn darparu y caiff Aelod gyflwyno ei enw i'r balot o dan Reol Sefydlog 12.61 un waith ar gyfer cwestiwn llafar i'r Prif Weinidog, un o Weinidogion penodol Cymru neu i'r Cwnsler Cyffredinol (os yw'n ateb cwestiynau mewn perthynas ag unrhyw gyfrifoldebau y gall fod ganddo heblaw yn ei rôl fel swyddog cyfreithiol y Llywodraeth). Gall Aelodau dynnu eu hunain oddi ar y balot yn llwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**24.** Ni chaiff arweinwyr Pleidiau gyflwyno eu henwau i'r balot ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog.

**25.** Nid oes balot ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel swyddog cyfreithiol) na Chomisiwn y Senedd. Caiff unrhyw Aelod gyflwyno hyd at ddau gwestiwn ar gyfer unrhyw sesiwn sydd wedi'i threfnu â'r Cwnsler Cyffredinol (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel swyddog cyfreithiol), ond dim ond un ar gyfer y Comisiwn.

**26.** Mae Rheol Sefydlog 12.64 yn nodi sut y penderfynir ar y drefn y caiff cwestiynau llafar eu hateb. Yn ymarferol, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gofyn i Aelodau gyflwyno eu henw cyn bob balot a gynhelir o dan Reol Sefydlog 12.61. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn cynnal y balot ac yn cysylltu drwy e-bost â'r Aelodau hynny a ddaeth ymhlith yr 16 enw cyntaf ym mhob balot yn eu gwahodd i gyflwyno cwestiwn erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Busnes. Yna, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn cymysgu'r enwau eto ar ôl y dyddiad cau i bennu trefn derfynol y cwestiynau.

**27.** Dim ond y 12 cwestiwn cyntaf a ddewisir yn yr aildrefnu terfynol fydd yn mynd ymlaen i'w hateb a bydd y pedwar cwestiwn sy'n weddill yn methu. Cyhoeddir trefn derfynol y cwestiynau ar wefan y Senedd a chaiff yr Aelodau wybod drwy e-bost beth yw safle eu cwestiwn ar y papur trefn, neu os na chafodd eu cwestiwn ei ddethol. Os caiff llai na 12 o gwestiynau eu cyflwyno i Weinidog penodol cyn y dyddiad terfyn, bydd unrhyw gwestiynau a ddaw i law ar ôl y terfyn amser a gyhoeddwyd, a hyd at bum diwrnod gwaith cyn y mae disgwyl iddynt gael eu hateb, yn cael eu hychwanegu at y rhestr o gwestiynau a chânt eu gofyn yn y drefn y maent yn dod i law.

## Y weithdrefn ar gyfer cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn

**28.** Bydd y Llywydd yn dechrau'r cyfnod cwestiynau drwy alw enw'r Aelod o'r Senedd y mae ei gwestiwn yn dod gyntaf ar y rhestr. Bydd yr Aelod yn darllen y cwestiwn, ac ni ddylai fod yn wahanol i'r fersiwn a gyflwynwyd. Yna, bydd y Llywydd yn gwahodd y Prif Weinidog, un o'r Gweinidogion, y Cwnsler Cyffredinol neu aelod o'r Comisiwn, fel y bo'n briodol, i roi ateb.

**29.** Mae'r Llywydd wedi datgan bod yn rhaid i atebion fod yn gryno. Ni ddylent gael eu hehangu'n ddatganiadau. Fel eithriad, gellir cyhoeddi ateb i gwestiwn y mae angen ateb maith iddo yng Nghofnod y Trafodion, yn hytrach na'i roi ar lafar. Fodd bynnag, dylai'r sawl sy'n ateb roi ateb byr ar lafar gan gyfeirio at yr ateb sylweddol sy'n cael ei anfon at yr Aelod, ac yn cael ei gyhoeddi yn y Cofnod.

**30.** Os na fydd Aelod yn bresennol i ofyn ei gwestiwn llafar, bydd y Llywydd yn galw am y cwestiwn nesaf ar yr agenda. Os bydd Aelod yn gwybod ymlaen llaw na fydd yn gallu bod yn bresennol mewn Cyfarfod Llawn i ofyn cwestiwn y mae wedi'i gyflwyno, dylai dynnu'r cwestiwn yn ôl drwy roi gwybod i'r Swyddfa Gyflwyno.

**31.** Ar ôl cael ateb, bydd y Llywydd yn gwahodd yr Aelod a ofynnodd y cwestiwn gwreiddiol i ofyn cwestiwn dilynol (cwestiwn atodol) sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn gwreiddiol. Pan fydd y cwestiwn atodol cyntaf wedi'i ateb, caiff y Llywydd alw ar Aelodau eraill i ofyn cwestiynau atodol cysylltiedig. Y Llywydd yn unig sydd i benderfynu pwy gaiff ei alw i ofyn cwestiynau atodol, ac ni ellir herio'r penderfyniad.

**32.** Bydd unrhyw gwestiynau llafar na chânt eu hateb yn ystod y cyfnod a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau llafar yn cael ateb ysgrifenedig ar yr un diwrnod.

Os caiff pob cwestiwn ei ateb cyn i'r amser a neilltuwyd ddod i ben, bydd y Llywydd yn galw am yr eitem nesaf ar yr agenda.

### Grwpio cwestiynau

**33.** Efallai y bydd adegau pan fydd un o Weinidogion Cymru neu aelod o'r Comisiwn am roi un ateb sy'n ymdrin â mwy nag un cwestiwn os ydynt yn ymwneud â'r un pwnc neu bynciau tebyg iawn. Gelwir hyn yn 'grwpio'. Ar gyfer cwestiynau llafar, mater i'r sawl sy'n ateb y cwestiynau yw cynnig y dylid eu grwpio ond, yn y pen draw, y Llywydd fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu hynny ai peidio. Nid yw'r Swyddfa Gyflwyno yn gyfrifol am grwpio cwestiynau ac ni fydd yn cynnig unrhyw gyngor am grwpio. Caiff unrhyw ymholiadau am grwpio eu cyfeirio at Ysgrifenyddiaeth y Siambr yn y lle cyntaf.

### Trosglwyddo cwestiynau

**34.** Os bydd swyddogion sy'n cynorthwyo Llywodraeth Cymru yn credu bod cwestiwn wedi'i gyfeirio at y Gweinidog anghywir ac yn penderfynu trosglwyddo'r cwestiwn i'w ateb yn ysgrifenedig, byddant yn rhoi gwybod i'r Aelod am y penderfyniad ac yn egluro pam. Nid y Swyddfa Gyflwyno fydd yn gwneud y penderfyniad. Os caiff cwestiwn llafar ei drosglwyddo, bydd yr Aelod yn cael ateb ysgrifenedig, a bydd yn colli'r cyfle i gael ateb ar lafar yn y Cyfarfod Llawn. Yr arfer yw y caiff cwestiynau eu trosglwyddo yn ystod oriau'r Swyddfa Gyflwyno (fel y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes), o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y mae disgwyl iddynt gael eu hateb.

**35.** Pan gaiff cwestiwn ei drosglwyddo, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn anfon hysbysiad ffurfiol at yr Aelod ac i'r Swyddfa Gyflwyno, a fydd yn defnyddio'r wybodaeth fel cynsail er mwyn osgoi achosion o drosglwyddo yn y dyfodol.

### Cyhoeddi cwestiynau ac atebion llafar ac ysgrifenedig

**36.** Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi cyfeirnod unigryw i gwestiynau. Caiff y 12 cwestiwn llafar a gaiff eu dewis yn y broses gymysgu eu cyhoeddi yn y drefn y cânt eu hateb. Caiff atebion i gwestiynau llafar eu cyhoeddi yng Nghofnod y Trafodion. Fel arfer, caiff cwestiynau ysgrifenedig eu cyhoeddi ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl iddynt gael eu cyflwyno a chânt eu rhestru yn ôl portffolio pob Gweinidog. Pan fydd y Swyddfa Gyflwyno yn cael atebion i gwestiynau ysgrifenedig, byddant yn cael eu cyhoeddi yn y papur trefn lle nodwyd y cwestiwn perthnasol yn gyntaf.

## Gwelliannau i gwestiynau a gyflwynwyd

**37.** Caiff Aelodau gywiro mân wallau argraffu mewn cwestiynau a gyflwynwyd i'w hateb yn ysgrifenedig neu ar lafar hyd at un diwrnod cyn y mae disgwyl i'r cwestiwn gael ei ateb. Ni dderbynnir gwelliannau sylweddol a fyddai'n newid cynnwys neu natur y cwestiwn.

## Cwestiynau amserol

**38.** Ceir darpariaeth yn Rheol Sefydlog 12.68A i Aelodau ofyn cwestiynau amserol i aelod o'r Llywodraeth er na roddwyd yr hysbysiad arferol yn eu cylch.

**39.** Dim ond pan fo'r Llywydd yn fodlon bod cwestiwn yn ymwneud â mater o bwys cenedlaethol, rhanbarthol neu leol y byddai'n ddymunol cael ymateb iddo ar frys gan Weinidog, y caniateir gofyn cwestiwn amserol. Bydd y Llywydd hefyd yn disgwyl bod pwnc y cwestiwn amserol yn rhywbeth sydd wedi codi ers i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwestiynau amserol yr wythnos flaenorol fynd heibio a bydd yn ystyried a yw'r mater wedi cael ei godi yn rhywle arall yn ystod trafodion, neu y gallai gael ei godi yn rhywle arall.

**40.** Mae'r Pwyllgor Busnes wedi neilltuo amser ar gyfer cwestiynau amserol yn syth ar ôl y cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher. Caiff Aelodau wneud cais i ofyn cwestiynau amserol rhwng 9.00 ar ddydd Llun a 10.00 ar ddydd Mercher. O dan amgylchiadau eithriadol, caiff y Llywydd ystyried ceisiadau am gwestiynau amserol a gyflwynir ar ôl y terfyn amser hwn os ydynt yn ymwneud â mater sydd wedi codi ers y terfyn amser am 10.00. Dim ond un cais i ofyn cwestiwn amserol y caiff Aelodau ei gyflwyno bob wythnos a rhaid iddynt ddilyn yr un rheolau â'r holl gwestiynau o ran ffurf, cynnwys a threfn. Er y gall Aelod sydd wedi cyflwyno cwestiwn amserol ei dynnu'n ôl wedyn a chyflwyno un arall, mae'n bosibl y bydd y Llywydd yn rhoi llai o flaenoriaeth i Aelodau sy'n gwneud hynny, yn arbennig os yw Aelodau eraill wedi cyflwyno cwestiynau amserol ar yr un pwnc.

**41.** Disgwylir i Aelodau ddarparu gwybodaeth ategol i egluro pam eu bod yn credu bod y cwestiwn yn bodloni'r trothwy gofynnol ar gyfer cwestiwn amserol a pham y byddai'n ddymunol cael ymateb cyflym gan Weinidog. Disgwylir i wybodaeth ategol gynnwys naratif ac nid dim ond linc i wybodaeth bellach. Bydd y Llywydd yn ystyried y wybodaeth wrth ddod i benderfyniad ar gais am gwestiwn amserol. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gofyn am ragor o wybodaeth gan Aelodau sy'n darparu dim ond linc neu ddim gwybodaeth o gwbl, ond fel arall ni fydd yn barnu digonolrwydd y wybodaeth ategol.

**42.** Pan gaiff cais ei wneud i ofyn cwestiwn amserol, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn dosbarthu'r cais i swyddogion y Llywodraeth er gwybodaeth ac yn rhoi gwybod i'r Llywydd bod cais wedi'i wneud. Y Llywydd yn unig a fydd yn penderfynu a fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu derbyn ai peidio.

**43.** Os bydd y Llywydd yn fodlon bod y cais yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod, ac yn penderfynu caniatáu i'r Aelod ofyn y cwestiwn yn ystod yr amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau amserol ar ddydd Mercher, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod i'r Aelod a'r Llywodraeth yn syth. Y Llywodraeth a fydd yn penderfynu pa Weinidog neu Ddirprwy Weinidog a fydd yn ateb y cwestiwn. Yn ogystal, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod i bob Aelod pa gwestiynau amserol a dderbyniwyd ai peidio cyn i'r Cyfarfod Llawn perthnasol ddigwydd. Bydd y cwestiynau'n cael eu cyhoeddi yn y Cofnod ac ar agenda'r Cyfarfod Llawn a gwefan y Cofnod. Bydd yr holl gwestiynau amserol a gyflwynir, gan gynnwys y rhai na chânt eu dethol gan y Llywydd, yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cofnod erbyn diwedd yr wythnos y'u cyflwynwyd.

**44.** Y Llywydd a fydd yn penderfynu sawl cwestiwn amserol i'w ddethol ar gyfer yr amser a neilltuwyd. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu y dylid neilltuo 20 munud i gwestiynau amserol bob wythnos, ac felly ni fydd y Llywydd fel arfer yn dewis mwy na dau gwestiwn amserol ar gyfer pob sesiwn. Ni fydd yn rhaid i'r Llywydd ddethol unrhyw gwestiwn amserol os nad yw'n bodloni'r meini prawf a nodir uchod, hyd yn oed os mai dyna'r unig gwestiwn a gyflwynir yr wythnos honno.

## Cwestiynau brys

**45.** Mae darpariaeth yn Rheol Sefydlog 12.67 i Aelodau ofyn cwestiwn brys heb roi hysbysiad yn ei gylch yn y Cyfarfod Llawn os bydd yn cael ei ystyried yn fater o arwyddocâd cenedlaethol brys, a'i fod wedi codi'n sydyn ac mae angen ymateb iddo ar unwaith. Os yw mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Llywodraeth, mater i'r Llywydd yw barnu hyn; os yw'n ymwneud â swyddogaethau Comisiwn y Senedd, mater i'r Dirprwy Lywydd yw barnu hyn. Y Llywydd a fydd yn penderfynu a gaiff cwestiynau brys eu gofyn, a pha bryd y cânt eu gofyn, ond byddant yn cael eu cynnwys yn amserlen y Cyfarfod Llawn fel yr eitem gyntaf o fusnes fel arfer. O dan y Rheolau Sefydlog, rhaid i o leiaf ddwy awr fynd heibio ar ôl gwneud cais am gwestiwn brys cyn bod y cwestiwn hwnnw'n cael ei ofyn. Rhaid i gwestiynau brys ddilyn yr un rheolau â'r holl gwestiynau o ran ffurf, cynnwys a threfn.

**46.** Pan gaiff cais ei wneud, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn dosbarthu'r cais i swyddogion y Senedd a'r Llywodraeth i gael cyngor ac yn rhoi gwybod i'r Llywydd (neu'r Dirprwy Lywydd) bod cais wedi'i wneud. Y Llywydd (neu'r Dirprwy Lywydd) yn unig a fydd yn penderfynu a fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu derbyn. Caiff y Llywydd (neu'r Dirprwy Lywydd) ymgynghori â'r aelod

perthnasol o'r Llywodraeth neu aelod o’r Comisiwn ynghylch unrhyw fater o arwyddocâd cenedlaethol brys, ond nid oes yn rhaid i'r Llywydd wneud hynny.

**47.** Os bydd y Llywydd (neu’r Dirprwy Lywydd) yn fodlon bod y cais yn bodloni’r meini prawf o ran bod yn fater brys ac yn un sydd o arwyddocâd cenedlaethol, ac os bydd yn penderfynu caniatáu i’r Aelod ofyn y cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn nesaf sydd ar gael, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod i’r Aelod yn syth, ynghyd â’r aelod priodol o'r Llywodraeth neu aelod priodol o’r Comisiwn. Yn ogystal, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod i’r holl Aelodau fod cwestiwn brys wedi’i dderbyn.

## Cwestiynau'r arweinwyr a'r llefarwyr

### Fformat

**48.** Mae'r drefn ar gyfer cwestiynau'r Arweinwyr a chwestiynau Llefarwyr y Grwpiau yn debyg iawn, ac mae'n gweithio fel a ganlyn:

- yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, bydd arweinydd pob grŵp gwrthblaid yn cael ei alw i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog. Mae'r un confensiwn yn berthnasol i gwestiynau llefarwyr grwpiau'r gwrthbleidiau i'r Gweinidogion portffolio yn ystod eu sesiynau holi llafar. Caiff y Llywydd benderfynu faint o gwestiynau y gellir eu gofyn yn ôl ei disgresiwn;
- nid yw cwestiynau'r arweinwyr na chwestiynau'r llefarwyr yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi ar yr agenda, felly gallant fod ar unrhyw fater o fewn cyfrifoldebau'r Gweinidog;
- bydd agenda'r Cyfarfod Llawn yn nodi pryd y bydd arweinwyr neu lefarwyr yn cael eu galw i ofyn eu cwestiynau – bydd hyn fel arfer ar ôl cwestiwn 2;
- bydd hawl gan lefarwyr i fod yn rhan o'r balot ac i gyflwyno cwestiwn yn y ffordd arferol, ac i ofyn am gwestiynau atodol i gwestiynau eraill a gyflwynir, ond efallai bydd y Llywydd yn rhoi llai o flaenoriaeth iddynt wrth gael eu galw i ofyn cwestiynau atodol;
- ni chaiff arweinwyr y pleidiau fod yn rhan o'r balot ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog, ond mae hawl ganddynt i fod yn rhan o'r balot ar gyfer yr holl gwestiynau llafar eraill.
- dyrennir 1 funud fesul cwestiwn i arweinwyr a llefarwyr ac, ar wahân i adegau lle ceir amgylchiadau eithriadol, mae'r Llywydd yn disgwyl i lefarwyr ddefnyddio eu cwestiynau i ddilyn thema benodol.

### Trefn yr arweinwyr a'r llefarwyr

**49.** Caiff yr arweinwyr a'r llefarwyr eu galw yn unol â'r drefn y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Busnes.

## Hysbysiad o lefarydd a holi Dirprwy Weinidogion

**50.** Nid yw portffolios llefarwyr grwpiau'r pleidiau yn cyfateb yn union â phortffolios y Gweinidogion, ac felly ar gyfer rhai sesiynau cwestiynau llafar efallai y bydd gan grŵp fwy nag un Aelod a allai gyflawni rôl y llefarydd.

**51.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes mai dim ond un Aelod a gaiff gyflawni rôl y llefarydd mewn unrhyw sesiwn cwestiynau llafar; h.y. bydd yn rhaid i'r un Aelod ofyn pob cwestiwn.

**52.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Llywodraeth gael rhybudd ymlaen llaw o bwy fydd yn cyflawni rôl y llefarydd ar gyfer pob plaid yn ystod sesiwn gwestiynau llafar.

**53.** Y disgwyliad cyffredinol yw y bydd y Gweinidog yn ateb cwestiynau'r llefarwyr. Fodd bynnag, os hoffai'r Aelodau gyfeirio cwestiynau eu llefarwyr at Ddirprwy Weinidog, dylent drafod hyn yn uniongyrchol gyda'r Llywodraeth neu'r Gweinidog perthnasol ymlaen llaw. Yna dylent hysbysu'r Llywydd drwy'r blwch post ceisiadau'r Cyfarfod Llawn.

**54.** Dylai'r llefarwyr gyfeirio eu holl gwestiynau naill ai at y Gweinidog yn unig neu'r Dirprwy Weinidog yn unig. Os bydd yn amlwg ar unwaith bod cwestiwn yn ymwneud â maes y mae'r llall yn gyfrifol amdano, y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog sy'n penderfynu pwy sy'n ymateb, ond gall y Llywydd ymyrryd.

## Dirprwyon

**55.** Os na all Aelod fynd i sesiwn cwestiynau llafar lle y byddai fel arfer yn cyflawni rôl arweinydd neu lefarydd ei grŵp ar fater penodol, caiff Aelod arall nad oes ganddo gyfrifoldeb penodol dros unrhyw ran o bortffolio'r Gweinidog gymryd ei le. Ni fydd y Llywydd ond yn disgwyl i ddirprwyon o'r fath gymryd rhan yn absenoldeb y llefarydd/llefarwyr arferol.

# 3. Datganiadau

## Datganiadau llafar

### Mathau o ddatganiad llafar

**56.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.50, caiff yr unigolion a ganlyn wneud datganiadau llafar:

- y Llywydd;
- aelod o Lywodraeth Cymru;
- aelod o Gomisiwn y Senedd ynghylch unrhyw fater sy'n dod o fewn cyfrifoldebau'r Comisiwn;
- unrhyw Aelod arall, pan fo pwnc y datganiad yn ymwneud â swyddogaeth y Senedd y mae'n gyfrifol amdani, gyda chytundeb y Llywydd (mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, datganiadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau a datganiadau cychwynnol ar ddarn o ddeddfwriaeth arfaethedig Aelod gan yr Aelod sy'n Gyfrifol am y ddeddfwriaeth honno).

**57.** Mae'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn fath penodol arall o ddatganiad llafar. Mae'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn nodi busnes y Cyfarfod Llawn am gyfnod o dair wythnos. Mae'r wythnos gyntaf yn cynnwys y busnes y cytunwyd arno ar gyfer Cyfarfodydd Llawn yr wythnos ganlynol. Rhoddir rhestrau amlinellol o fusnes y ddwy wythnos ar ôl hynny sy'n destun newid.

**58.** Caiff y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes ei wneud yn y Cyfarfod Llawn bob wythnos gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, yn unol â Rheol Sefydlog 11.11. Caniateir i Aelodau ofyn cwestiynau am y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes. Mae hwn yn gyfle i Aelodau wneud cais i'r Llywodraeth wneud datganiad neu gynnal dadl yn y Siambr ar fater sydd o bwys i'r Aelod, a rhaid geirio cyfraniadau Aelodau fel hyn. O ran datganiadau eraill, rhaid i Aelodau ofyn cwestiynau, a pheidio â gwneud areithiau hir. Ni ddylai Aelodau ddefnyddio'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes i holi'r Gweinidog am faterion sy'n ymwneud â threfnu busnes heblaw busnes y Llywodraeth na materion eraill sy'n gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Busnes.

## Hysbysiad o ddatganiadau llafar

**59.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.16, caiff y Llywydd, aelod o Lywodraeth Cymru neu aelod o Gomisiwn y Senedd wneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn heb hysbysiad. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gellir eu hychwanegu at agenda'r Cyfarfod Llawn ar unrhyw adeg. Mae hyn yn wahanol i'r drefn ar gyfer dadleuon neu benderfyniadau ar gynigion, lle gofynnir am bum diwrnod o rybudd.

## Amseru a hyd datganiadau llafar

**60.** Fel arfer, nodir terfyn amser ar gyfer hyd datganiadau ar agenda'r Cyfarfod Llawn. Ni fydd datganiadau yn hwy na 1,000 o eiriau fel rheol, neu 10 munud, er mwyn caniatáu digon o amser i'r Aelodau ofyn cwestiynau i'r Aelod sy'n cyflwyno'r datganiad.

## Cwestiynau ar ddatganiadau llafar

**61.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.51, caiff y Llywydd ganiatáu i gwestiynau gael eu gofyn i Aelod sy'n gwneud datganiad.

**62.** Fel rheol, caiff llefarwyr y grwpiau eu galw'n gyntaf i ofyn cwestiynau, ac yna unrhyw Aelod arall sydd wedi nodi yr hoffai siarad. Caiff Aelodau eu galw yn ôl disgresiwn y Llywydd.

**63.** Mae cyfraniadau gan unigolion yn ddarostyngedig i derfyn amser penodol. Y drefn arferol erbyn hyn yw bod llefarwyr y grwpiau yn cael caniatâd i gael hyd at 5 munud i roi cyflwyniad byr ac i ofyn eu cwestiynau. Mae gan siaradwyr eraill uchafswm o un funud i ofyn eu cwestiynau a dylai'r cwestiynau hynny fod yn gryno.

## Ymyrryd ar ddatganiadau llafar

**64.** Yn ôl confensiwn, ni ddylai Aelodau ymyrryd fel arfer pan fydd Aelod yn gwneud datganiad.

## Datganiadau personol

**65.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.52, caiff y Llywydd ganiatáu i Aelod wneud datganiad personol os bydd y Llywydd wedi cael hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llaw o fwriad yr Aelod i wneud hynny.

**66.** Mae Rheol Sefydlog 12.53 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau personol fod yn fyr ac yn ffeithiol. Mae hefyd yn nodi na chaiff datganiadau

personol fod yn destun dadl. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ellir galw ar unrhyw Aelod arall i gyfrannu at eitem fusnes o'r fath.

**67.** Yn ymarferol, ni wnaed llawer o ddatganiadau personol ond caiff y Rheol Sefydlog hon ei defnyddio i alluogi Aelodau i wneud **Datganiadau 90 eiliad**, a chaiff amser ei neilltuo ar gyfer datganiadau o'r fath bob dydd Mercher.

## Datganiadau gan gadeiryddion pwyllgorau

**68.** Mae Rheol Sefydlog 12.50 yn nodi y caiff y Llywydd, aelod o'r Llywodraeth neu aelod o'r Comisiwn wneud datganiadau, neu:

> *unrhyw Aelod arall, lle mae pwnc y datganiad yn ymwneud â swyddogaeth y Senedd y mae'n gyfrifol amdani, gyda chytundeb y Llywydd.*

**69.** Caiff cadeiryddion pwyllgorau wneud datganiad o dan y ddarpariaeth hon i roi gwybod i'r Senedd am waith a blaenoriaethau eu pwyllgorau.

**70.** Gall datganiadau gan gadeiryddion pwyllgorau gyflawni diben gwahanol i ddadleuon ar adroddiadau pwyllgorau, a gellir eu defnyddio, er enghraifft, i:

- bennu cwmpas ymchwiliad gan bwyllgor ar ddechrau'r broses;
- pennu cwmpas blaenraglen waith pwyllgor; a
- rhoi diweddariad ar argymhellion a wnaed gan bwyllgor.

**71.** Mater i gadeiryddion, gan ymgynghori â'u pwyllgorau, yw penderfynu pryd yr hoffent wneud datganiad. Bydd disgwyl i gadeiryddion, neu dimau clercio sy'n gweithio ar eu rhan, ofyn am amser am ddatganiad o leiaf bythefnos cyn gwneud y datganiad hwnnw er mwyn iddo gael ei gynnwys ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

**72.** Dyrennir 30 munud ar gyfer yr eitem fel arfer.

**73.** Bydd strwythur y datganiad yr un fath â'r drefn ar gyfer datganiad gan y Llywodraeth: ar ôl clywed y datganiad, bydd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau, gyda Chadeirydd y pwyllgor yn ymateb i bob un yn ei dro.

**74.** Er bod hawl gan aelodau'r Llywodraeth i holi Cadeirydd y pwyllgor fel pob Aelod arall, nid yw'n ofynnol i'r Llywodraeth ymateb.

**75.** Fel mater o gwrteisi i'r Aelodau, disgwylir fel arfer y byddant yn cael copi o'r datganiad drwy e-bost, yn Gymraeg ac yn Saesneg, cyn iddo gael ei gyflwyno.

## Datganiadau 90 Eiliad

### Strwythur

**76.** Mae datganiadau 90 eiliad yn eitem reolaidd ar agenda'r Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, yn syth ar ôl y cwestiynau.

**77.** Neilltuir cyfanswm o bum munud ar gyfer yr eitem a chaiff Aelodau siarad am gyfanswm o funud a hanner. Felly, caiff o leiaf dri Aelod ei alw bob wythnos.

**78.** Nid oes cyfle i Aelodau eraill ofyn cwestiynau dilynol ac nid yw'n ofynnol i'r Llywodraeth nac unrhyw un arall ymateb.

### Gweithdrefn

**79.** Gellir gwneud datganiadau 90 eiliad o dan Reolau Sefydlog 12.52 a 12.53, sy'n nodi y caiff y Llywydd ganiatáu i Aelod wneud datganiad personol, bod yn rhaid i ddatganiadau o'r fath fod yn fyr ac yn ffeithiol, ac na ddylent fod yn destun dadl.

**80.** Caiff unrhyw Aelod wneud datganiad 90 eiliad ar unrhyw bwnc sy'n peri pryder a gellid defnyddio'r amser, er enghraifft, ar gyfer:

- trafod materion sy'n peri pryder i etholwyr;
- tynnu sylw at faterion lleol;
- nodi dathliadau neu ddyddiadau pwysig;
- talu teyrngedau.

**81.** Mae'r rheolau arferol o ran trefn yn gymwys i Ddatganiadau 90 Eiliad, gan gynnwys sub judice a dirmyg llys. Bydd y Llywydd yn galw i drefn unrhyw Aelod sy'n camddefnyddio'r fraint o gael ei alw i siarad. Gan nad oes hawl i ateb datganiad, ni ddylid eu defnyddio i wneud ymosodiad personol ar Aelodau eraill neu unigolion y tu allan i'r Siambr na allant amddiffyn eu hunain, ac ni ddylid eu defnyddio fel modd i ofyn cwestiynau. Ni ddylid eu defnyddio ychwaith i godi materion y gellid eu codi'n briodol drwy weithdrefnau busnes eraill; byddai'r materion hyn yn cynnwys pynciau sy'n ymwneud â swyddogaethau Gweinidogol sy'n agored i waith craffu drwy ddulliau eraill.

### Gwneud cais i wneud datganiad

**82.** Mae'n rhaid gwneud cais i'r Llywydd cyn 10am ar y dydd Mercher y bydd Aelod am wneud datganiad. Caiff y Llywydd ystyried ceisiadau am ddatganiadau a gyflwynir ar ôl y terfyn amser hwn os nad yw'r holl slotiau ar gyfer y diwrnod wedi'u llenwi.

**83.** Wrth wneud cais i wneud datganiad, dylai Aelodau egluro'n fras y pwnc y maent yn bwriadu siarad amdano. Bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i ddewis datganiadau ar sail y wybodaeth a ddarparwyd.

**84.** Caiff Aelodau wybod ymlaen llaw os yw'r Llywydd yn bwriadu eu galw i wneud datganiad 90 eiliad. Mae Aelodau sydd wedi bod yn aflwyddiannus hefyd yn cael eu hysbysu cyn y Cyfarfod Llawn gan Ysgrifenyddiaeth y Siambr, a chaniateir iddynt ailgyflwyno eu cais yr wythnos ganlynol.

## Datganiad ar y gyllideb ddrafft

**85.** Mae Rheol Sefydlog 20.8 yn nodi y caiff Gweinidog wneud datganiad am y gyllideb ddrafft yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl ar ôl i gynigion amlinellol y gyllideb gael eu gosod. Caiff y datganiad ei strwythuro fel dadl, yn hytrach na gofyn cwestiynau yn ei gylch yn unig.

**86.** Yn y lle cyntaf, bydd y Llywydd yn galw ar y Gweinidog i wneud y datganiad, y disgwylir iddo barhau hyd at 15 munud.

**87.** Yna bydd y Llywydd yn galw'r siaradwyr eraill yn eu tro. Caiff y siaradwr cyntaf o bob grŵp hyd at 10 munud; ar ôl hynny, caniateir hyd at bum munud yr un i'r siaradwyr eraill **yn y ffordd arferol**. Er na chyfyngir Aelodau i ofyn cwestiynau yn unig, dylai eu cyfraniadau gynnwys cwestiwn neu gwestiynau.

**88.** Ni wahoddir y Gweinidog i ymateb i bob cyfraniad yn ei dro fel sy'n digwydd fel arfer yn achos datganiadau; yn lle hynny, fe'i gelwir i ymateb i bob cyfraniad ar ddiwedd yr eitem, a bydd ganddo hyd at 10 munud i wneud hynny.

**89.** Caniateir ymyriadau, ac eithrio pan fydd y Gweinidog yn gwneud y datganiad cychwynnol.

## Datganiadau ysgrifenedig

**90.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 14.6 a 14.7, caiff y Llywodraeth neu'r Comisiwn gyhoeddi datganiadau ysgrifenedig ynghylch unrhyw fater o fewn eu cyfrifoldebau priodol.

**91.** Cyhoeddir pob datganiad ysgrifenedig ar wefan y Senedd ynghyd â **Chofnod y Trafodion**. Cyhoeddir datganiadau ysgrifenedig gan y Llywodraeth ar wefan y Llywodraeth hefyd.

# 4. Cynigion a gwelliannau

## Cyffredinol

**92.** Rhaid i'r busnes yn y Cyfarfodydd Llawn fynd yn ei flaen ar sail y cynigion a wneir, ac eithrio'r canlynol:

i. datganiadau;

ii. cyflwyno Aelodau newydd;

iii. teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill;

iv. cwestiynau llafar;

v. materion ar gyfer dadleuon brys;

vi. pynciau ar gyfer dadl fer.

**93.** Gellir cynnig gwelliannau i unrhyw gynnig oni bai bod y Rheolau Sefydlog yn nodi fel arall. Yn gyffredinol, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynigion a gwelliannau (er y gall fod gwaharddiadau penodol ar gyfer rhai mathau o gynigion a gwelliannau - e.e. Cynigion Cyllideb Blynyddol). Mae Rheolau Sefydlog 12.19 i 12.49 yn rhoi amlinelliad o'r prif weithdrefnau sy'n ymwneud â chynigion a gwelliannau a dylid cyfeirio atynt ynghyd â'r ddogfen hon.

**94.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 12.21 a 12.22 caiff Aelod nodi ei gefnogaeth ar gyfer unrhyw gynnig neu welliant drwy ychwanegu ei enw iddo. Rhaid i unrhyw Aelod sydd am ychwanegu ei enw i gynnig neu welliant wneud hynny drwy gefnogi'r cynnig neu welliant yn system y Swyddfa Gyflwyno cyn diwedd y diwrnod gwaith olaf cyn i'r cynnig neu'r gwelliant hwnnw gael ei drafod.

### Fformat

**95.** Rhaid i bob cynnig a gwelliant gael eu cyflwyno drwy system y Swyddfa Gyflwyno.

**96.** Nid oes rheolau cadarn ynglŷn â fformat cynigion. Fodd bynnag, dylid defnyddio'r confensiwn rhifo sydd i'w weld yn y cynnig enghreifftiol isod cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'r fformat hwn yn ei gwneud yn haws disgrifio pa rannau o gynigion y cyfeirir atynt mewn unrhyw welliannau.

### Cynnig enghreifftiol

*Cynnig bod y Senedd:*

*1. Dyma ble y dylid nodi'r haen gyntaf o bwyntiau bwled mewn cynnig.*

*2. dylid defnyddio rhifau ar gyfer yr haen gyntaf:*

*a) dyma lle y dylid nodi'r ail haen o bwyntiau bwled mewn cynnig; a*

*b) dylid defnyddio llythrennau ar gyfer yr ail haen:*

*i) dyma ble y dylid nodi'r drydedd haen o bwyntiau bwled mewn cynnig; a*

*ii) dylid defnyddio rhifolion Rhufeinig ar gyfer y drydedd haen.*

### Gwelliant enghreifftiol

*Yn is-bwynt (2)(b)(ii) ar ôl "dylid", mewnosoder "bob amser".*

### Mathau o gynnig: Cynigion â dyddiad trafod/Cynigion heb ddyddiad trafod

**97.** Caiff cynigion eu derbyn a'u cyhoeddi naill ai fel Cynigion â Dyddiad Trafod neu fel Cynigion heb Ddyddiad Trafod. Cynnig â Dyddiad Trafod yw un lle y mae dyddiad penodol ar gyfer dadl ar bwnc y cynnig wedi'i gynnwys yn y datganiad neu'r cyhoeddiad busnes a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 11.11. Cynigion heb Ddyddiad Trafod yw rhai lle na chytunwyd ar ddyddiad ar gyfer dadl eto.

**98.** Dylid nodi nad yw'r Rheolau Sefydlog yn nodi unrhyw wahaniaeth rhwng y ddau fath hyn o gynnig. Fodd bynnag, mae hwn yn gonfensiwn sefydledig i wahaniaethu rhwng busnes y cytunwyd arno a busnes arfaethedig arall.

**99.** Er y gellir cyflwyno Cynnig heb Ddyddiad Trafod unrhyw bryd, ni ellir ei drafod hyd nes y bydd y cyfnod rhybudd arferol ar gyfer y cynnig dan sylw wedi dod i ben a rhaid iddo gydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog ym mhob ffordd arall. Mae cyfnodau rhybudd yn dechrau ar y diwrnod y caiff cynigion eu cynnig. Efallai y bydd Aelodau am ystyried gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Busnes i amser i gael ei neilltuo i drafod Cynnig heb Ddyddiad Trafod, neu, fel arall, eu

cyflwyno i'w hystyried fel **Dadleuon Aelodau** neu **Ddadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol yr Aelodau**.

**100.** Os bydd y Senedd yn penderfynu gohirio dadl ar Gynnig â Dyddiad Trafod i ddiwrnod arall, ni fydd angen ailgyflwyno'r gwelliannau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cynnig a byddant yn cael eu trosglwyddo ynghyd â'r cynnig gwreiddiol.

### Gwrthod cynigion

**101.** Yn amodol ar ddisgresiwn y Llywydd, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gwrthod derbyn cynigion ar y sail a ganlyn:

i. nad ydynt yn ymwneud â Chymru na swyddogaethau a phwerau Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Senedd;

ii. maent yn mynd yn groes i Reolau Sefydlog y Senedd;

iii. maent yn mynd yn groes i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd) neu unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol perthnasol eraill;

iv. maent yn cynnwys iaith y mae'r Llywydd yn ystyried ei bod yn groes i'r drefn, yn gwahaniaethu, yn peri tramgwydd neu'n amharu ar urddas y Senedd; neu

v. yn codi amheuaeth ynghylch cynnal busnes y Senedd yn briodol.

**102.** Yn ogystal, ni ddylai cynigion fod yn rhy hir. Bydd clercod y Swyddfa Gyflwyno yn gallu rhoi cyngor i'r Aelodau ar bob mater sy'n ymwneud â pha mor dderbyniol yw cynnig.

### Diwygio cynnig

**103.** Caiff Aelodau gynnig gwelliannau i unrhyw gynnig oni bai bod y Rheolau Sefydlog yn nodi fel arall. Cyflwynir gwelliannau trwy ‘ddiwygio’ y cynnig gwreiddiol yn system y Swyddfa Gyflwyno.

### Diben gwelliannau

**104.** Gellir cyflwyno gwelliant â'r nod o addasu cynnig i'w wneud yn fwy derbyniol neu i gyflwyno cynnig gwahanol i'r Senedd fel dewis arall yn lle'r cynnig gwreiddiol. Rhaid i welliannau fod o fewn cwmpas pwnc y cynnig gwreiddiol. Pan fydd gwelliannau'n ceisio cyflwyno cynnig gwahanol ni ddylai

hyn negyddu telerau'r cynnig gwreiddiol yn uniongyrchol. Y dull priodol o fynegi barn groes yw drwy bleidleisio yn erbyn cynnig.

**105.** Caiff gwelliannau:

i. hepgor geiriau penodol;

ii. hepgor geiriau penodol er mwyn mewnosod neu ychwanegu rhai eraill; a

iii. mewnosod neu ychwanegu geiriau penodol.

## Gwrthod a dethol gwelliannau

**106.** Gan weithredu o dan gyfarwyddyd y Llywydd, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gwrthod derbyn gwelliannau:

i. nad ydynt yn ymwneud â Chymru na swyddogaethau a phwerau Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Senedd;

ii. os ydynt yn mynd yn groes i Reolau Sefydlog y Senedd;

iii. os ydynt yn mynd yn groes i **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** (fel y'i diwygiwyd) neu ddarpariaethau cyfreithiol perthnasol eraill;

iv. os ydynt yn codi materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynnig, sy'n amherthnasol i'r pwnc neu'r tu allan i gwmpas y cynnig gwreiddiol;

v. os ydynt yn negyddu'r cynnig yn uniongyrchol;

vi. os ydynt yn cynnwys iaith y mae'r Llywydd yn ystyried ei bod yn groes i'r drefn, yn gwahaniaethu, yn peri tramgwydd neu'n amharu ar urddas y Senedd; neu

vii. codi amheuaeth ynghylch cynnal busnes y Senedd yn briodol.

**107.** Ar ôl i welliant gael ei dderbyn a'i gyflwyno, mater i'r Llywydd yw penderfynu a ddylid ei ddethol ar gyfer dadl. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), caiff y Llywydd wrthod dethol gwelliant pan fydd o'r farn bod y dull priodol o gynnal busnes y Senedd yn ei gwneud yn briodol gwrthod. Gallai'r rhesymau dros beidio â dethol gynnwys y canlynol:

i. gwelliannau a fyddai’n newid cynnwys a natur y ddadl yn sylweddol;

ii. gwelliannau a allai alluogi Aelod neu grŵp arall i 'gymryd drosodd' dadl neu symud ei ffocws i ffwrdd o'r hyn a fwriadwyd gan y sawl a wnaeth y cynnig;

iii. gwelliannau sy'n glastwreiddio'r cynnig i'r fath raddau fel y byddai pleidleisio yn erbyn y cynnig yn ffordd fwy priodol o weithredu;

iv. gwelliannau sydd, yn eu hanfod, yn debyg i gwestiynau y mae'r Senedd wedi trafod a phleidleisio arnynt yn ddiweddar;

v. gwelliannau sy'n ceisio achub y blaen ar benderfyniad y mae'r Senedd yn bwriadu ei ystyried yn y dyfodol agos.

**108.** Mae nifer y gwelliannau a gyflwynir, a pha un a ydynt yn debygol o ennyn cefnogaeth Aelodau eraill, hefyd yn ystyriaethau. Caiff y Llywydd benderfynu peidio â dethol gwelliant:

i. os yw'n debyg i welliant arall;

ii. os gellid yn rhesymol bod wedi cyflwyno nifer o welliannau fel un gwelliant;

iii. os byddai dethol gwelliant yn rhoi swm anghymesur o amser siarad i Aelod, o'i gymharu â maint ei grŵp neu aelodaeth unigol o'r Senedd, a hwnnw'n amser y gellid ei neilltuo i siaradwyr eraill.

**109.** Yn ystod y Cyfnod Pleidleisio, caiff y Llywydd ddad-ddethol gwelliannau a fyddai, yng ngoleuni'r gwelliannau a dderbyniwyd eisoes, yn golygu bod y cynnig yn annealladwy neu'n gwrthddweud ei hunan. O'r herwydd, ni chaiff y Llywydd ddethol gwelliannau os ydynt yn debygol o gael eu dad-ddethol yn y Cyfnod Pleidleisio, yn enwedig os yw'r pwyntiau uchod hefyd yn gymwys.

**110.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi categorïau o gynigion na chaniateir eu diwygio, neu maent yn gosod amodau ar natur y gwelliannau y caniateir eu cyflwyno. Mae yna hefyd rai categorïau o gynigion sydd, yn unol â chonfensiynau seneddol, yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn amhriodol i'w diwygio. Er enghraifft, mae'n arfer hirsefydlog na fydd y Llywydd yn dethol gwelliannau i gynigion sydd 'yn nodi', yn enwedig ar adroddiadau pwyllgorau, fel na ofynnir i'r Senedd fynegi barn ar gynnwys yr adroddiad.

## Trefn gwelliannau

**111.** Er mwyn hwyluso'r drafodaeth, bydd y Llywydd yn arfer disgresiwn i drefnu a rhifo gwelliannau ar yr agenda fel eu bod yn cael eu trafod yn y drefn y maent yn codi yn nhestun y cynnig. Pan fydd gwelliannau'n codi yn yr un lle yn y testun, bydd y Llywydd yn trefnu, ac yn galw ar yr Aelodau i gynnig gwelliannau naill ai yn y drefn y cawsant eu cyflwyno neu yn y drefn a fydd yn hwyluso'r drafodaeth yn eu barn hwy.

## Grwpio gwelliannau

**112.** Mae gan y Llywydd ddisgresiwn i ddewis grwpio gwelliannau i gynigion. Nodir yn glir ar yr agenda pa welliannau a gaiff eu trafod gyda'i gilydd yn y ddadl (er y gellid gwneud newidiadau unrhyw bryd).

**113.** Er mwyn hwyluso'r drafodaeth, caiff y Llywydd ddewis grwpio gwelliannau yn ôl plaid wleidyddol (ac felly galw un siaradwr o bob plaid i siarad am eu holl welliannau). Caiff grwpio gwelliannau yn ôl pwnc hefyd.

## Gweithdrefn yn y Siambr – cynnig cynigion

**114.** Yn gyffredinol, caiff unrhyw Aelod sy'n bresennol yn y Siambr wneud y rhan fwyaf o gynigion er bod rhai eithriadau wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Pan gyrhaeddir yr eitem fusnes berthnasol, bydd y Llywydd yn galw ar yr Aelod sy'n gwneud y cynnig. Os na wneir y cynnig, bydd y cynnig yn methu a bydd y Llywydd yn symud i'r eitem nesaf ar agenda'r diwrnod.

## Tynnu gwelliant yn ôl

### Tynnu gwelliant yn ôl cyn y caiff ei gynnig

**115.** Caiff Aelod dynnu gwelliant yn ôl cyn iddo gael ei gynnig drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddfa Gyflwyno.

**116.** Gellir tynnu gwelliant yn ôl ar unrhyw adeg cyn y caiff ei gynnig, er bod amod y dylid hysbysu'r Swyddfa Gyflwyno ddwy awr ymlaen llaw, er mwyn caniatáu amser i newid yr agenda ac i hysbysu'r Llywydd a'r Rheolwyr Busnes. Yn ymarferol, ystyr hyn yw bod modd tynnu gwelliant yn ôl yn ystod sesiwn o'r Cyfarfod Llawn.

**117.** Rhaid i welliant gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a gyflwynodd y gwelliant.

### Tynnu gwelliant yn ôl ar ôl iddo gael ei gynnig

**118.** Pan fydd Aelodau'n cael eu galw i gynnig gwelliannau yn ystod dadl, gelwir arnynt i gynnig pob gwelliant a gyflwynwyd gan eu grŵp yn y ddadl honno. Oni bai bod yr Aelod yn nodi'n wahanol, cymerir fod y gwelliannau hynny yn rhai a gynigiwyd.

**119.** Os bydd Aelod am dynnu gwelliant a gynigiwyd yn ôl yn ddiweddarach, dim ond os na fydd dim Aelodau'n gwrthwynebu y bydd hynny'n bosibl (Rheol Sefydlog 12.20). Rhaid i'r Aelod hysbysu'r Llywydd cyn y daw'r drafodaeth i ben. Mae amod y dylai naill ai'r Aelod sydd wedi cyflwyno'r gwelliant, neu'r Aelod sydd wedi ei gynnig, wneud hyn.

**120.** Yna, rhaid i'r Llywydd ofyn i'r Senedd a oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu tynnu'r cynnig yn ôl. Os bydd un o'r Aelodau yn gwrthwynebu, bydd pleidlais yn cael ei chynnal ar y gwelliant yn ôl yr arfer.

### Gwelliannau na chânt eu cynnig

**121.** Pan fydd Aelod yn cael ei alw i gynnig ei welliannau, gall yr Aelod benderfynu peidio â chynnig un neu ragor o'r gwelliannau.

**122.** Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i'r Aelod nodi'n glir yn ei araith nad yw'n cynnig y gwelliant, ar ôl hysbysu'r Llywydd am ei fwriad ymlaen llaw, os yw'n bosibl. Ni fydd pleidlais yn cael ei chynnal ar unrhyw welliant na chaiff ei gynnig.

## Confensiynau ar gyfer ymdrin â chynigion yr wrthblaid a gwelliannau i gynigion o'r fath

### Dadleuon y gwrthbleidiau

**123.** Ar 7 Gorffennaf 2009, cyflwynodd y Pwyllgor Busnes system ar gyfer ymdrin â chynigion a gwelliannau yn ymwneud â dadleuon y gwrthbleidiau.

### Cyflwyno

**124.** Mae'r rheolau arferol mewn perthynas â **chyflwyno** yn berthnasol i gynigion a gwelliannau a gyflwynir o dan y confensiynau hyn.

### Gweithdrefn

**125.** Os na chyflwynir gwelliant i gynnig a gynigiwyd gan wrthblaid o dan Reol Sefydlog 12.19, neu os na chafodd unrhyw welliant ei ddethol, ar ddiwedd y ddadl bydd y Llywydd yn gwneud cynnig cychwynnol y dylid "derbyn y cynnig". Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, cynhelir pleidlais ar y cynnig yn ystod y Cyfnod Pleidleisio.

**126.** Os cyflwynir gwelliannau i gynnig a'u bod yn cael eu dethol, bydd y Llywydd yn gwneud cynnig cychwynnol y dylid "derbyn y cynnig heb ei ddiwygio". Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu'r cynnig, cynhelir pleidlais yn ystod y cyfnod pleidleisio.

**127.** Os bydd y Senedd yn pleidleisio yn erbyn y cynnig i "dderbyn y cynnig heb ei ddiwygio", bydd y Senedd yn pleidleisio ar unrhyw welliannau i'r cynnig, cyn pleidleisio ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

**128.** Os gwrthodir y cynnig i "dderbyn y cynnig heb ei ddiwygio", a bod pob gwelliant yn cael ei wrthod, bydd y cynnig yn methu.

**129.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), caiff y Llywydd wrthod dethol gwelliant pan fydd o'r farn bod y dull priodol o gynnal busnes yn ei gwneud yn briodol gwrthod. Ni fydd y Llywydd yn dad-ddethol gwelliannau sy'n ceisio "dileu popeth" yn y cynnig gwreiddiol. Ni ddisgwylir i'r gwrthbleidiau gyflwyno gwelliannau i'w cynigion eu hunain.

### Dadleuon anllywodraethol eraill

**130.** Caiff y Llywydd benderfynu cymhwyso'r confensiynau hyn i fathau eraill o fusnes anllywodraethol pan fo'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny.

## Dadleuon Brys

### Egwyddorion cyffredinol

**131.** Nodir y weithdrefn ar gyfer cynnal dadl frys yn Rheolau Sefydlog 12.69 – 12.71 ac mae dwy ran iddi:

- y **cynnig cychwynnol** i gynnal y ddadl, sy'n ddarostyngedig i gytundeb y Senedd;
- os yw'r Senedd yn cytuno i gynnal y ddadl, y **ddadl frys** ei hun.

**132.** Gellir cynnal dadleuon brys ar faterion o fewn cyfrifoldebau'r Llywodraeth neu'r Comisiwn.

### Cynnig ar gyfer Dadl Frys

**133.** Caiff y Llywydd ganiatáu i Aelod gynnig y dylid cynnal dadl frys yn y Cyfarfod Llawn, ar yr amod:

- bod y **Llywydd wedi cael ei hysbysu** am y mater y dymunir ei drafod **o leiaf awr** cyn dechrau'r cyfarfod;
- os yw'r mater yn berthnasol i swyddogaeth y Llywodraeth, bod y Llywydd wedi gallu rhoi cyfle i'r unigolyn perthnasol o'r Llywodraeth **roi sylwadau yn breifat** iddynt ar y mater. Os yw mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, mater i'r Dirprwy Lywydd yw rhoi cyfle i aelod o'r Comisiwn i roi sylwadau;
- os yw'r mater yn ymwneud â swyddogaeth y Llywodraeth, bod y Llywydd yn fodlon bod y mater yn **un o bwys cyhoeddus brys**, a'u bod wedi hysbysu'r Aelod sy'n gwneud y cynnig a'r unigolyn perthnasol a fydd yn ymateb i'r ddadl o'u penderfyniad. Os yw mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, mater i'r Dirprwy Lywydd yw penderfynu a rhoi gwybod i'r aelod perthnasol o'r Comisiwn o'r penderfyniad.

**134.** Felly, mae'r weithdrefn ar gyfer caniatáu i Aelod gynnig dadl frys yn debyg iawn i hynny am ofyn cwestiwn brys. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd er mai mater i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn unig yw penderfynu a ddylid caniatáu cwestiwn brys ai peidio, rhaid i benderfyniad i ganiatáu dadl frys gael ei gymeradwyo gan fwyafrif yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn, a hynny ar ôl i'r Llywydd ganiatáu i'r cynnig gael ei wneud.

## Trafod y cynnig yn y Cyfarfod Llawn

**135.** Er mwyn i ddadl frys fynd yn ei blaen, rhaid cyflwyno **cynnig i drafod mater o bwys cyhoeddus brys** gerbron y Cyfarfod Llawn. Yn gyffredinol, bydd hyn yn digwydd ar ôl y cwestiynau i'r Gweinidogion.

**136.** Caniateir **tair munud** i'r Aelod sy'n cynnig y ddadl frys er mwyn iddo roi araith o blaid y cynnig. Pan fo'r mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Llywodraeth, caniateir tair munud i'r aelod perthnasol o'r Llywodraeth ymateb. Pan fo'r mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, caniateir tair munud i aelod o'r Comisiwn gyflwyno ei ymateb.

**137.** Unwaith y bydd y cynnig i gynnal dadl frys wedi'i gyflwyno a bod yr aelod o'r Llywodraeth neu aelod o'r Comisiwn wedi ymateb, rhaid i'r Llywydd **gynnal pleidlais ar y cynnig ar unwaith.** Gellir cymeradwyo'r cynnig yn syth oni bai bod unrhyw Aelod yn gwrthwynebu ac yn dymuno iddo gael ei roi i bleidlais.

**138.** Os gwrthodir y cynnig gan fwyafrif syml, ni chynhelir y ddadl frys. Os caiff ei dderbyn, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r **ddadl frys gael ei chynnal** yn ystod yr un cyfarfod neu, os yw'r Llywydd yn penderfynu gwneud hynny, y cyfarfod yn union ar ei ôl.

## Y Ddadl Frys

**139.** Mae dadleuon brys yn cael eu cynnal ar fater penodol, ac nid ar gynnig. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.19(v), **nid oes angen cyflwyno cynnig** yn y Swyddfa Gyflwyno er mwyn i ddadl frys fynd yn ei blaen. O'r herwydd, nid oes mecanwaith ar gyfer cyflwyno gwelliannau.

## Trefniadau ar gyfer trefnu'r Ddadl Frys

**140.** Os bydd y Senedd yn cytuno i ystyried y mater a gynigiwyd, rhaid iddo wneud hynny yn y cyfarfod hwnnw neu (os bydd y Llywydd yn penderfynu hynny) yn y cyfarfod yn union ar ei ôl.

**141.** Caiff y Llywydd wneud trefniadau priodol ar gyfer **addasu'r amserlen** i ddarparu ar gyfer dadl frys:

- Os cynigir y ddadl frys gan aelod o'r Llywodraeth, mae Rheol Sefydlog 11.18(ii) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddadl gael ei chynnwys o fewn amser busnes y Llywodraeth.

- Os cynigir y ddadl frys gan Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth, neu gan aelod o'r Comisiwn a'i bod yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol y dylid neilltuo amser o fewn amser busnes y Senedd.

**142.** Gan na fydd dadleuon brys yn mynd rhagddynt ar sail cynnig o sylwedd, ni chynhelir pleidlais ar ddiwedd yr eitem. Eu diben yw trafod y mater yn hytrach na dod i benderfyniad yn ei gylch.

## Dadleuon a gynigiwyd gan Aelodau unigol

### Dadleuon Byr

**143.** Mae Amserlen y Senedd a gyhoeddir yn unol â Rheol Sefydlog 11.9, yn cynnwys y dyddiadau, am gyfnod o ddim llai na chwe mis, y cynhelir dadleuon byr yn y Cyfarfod Llawn. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.72, rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw'r Aelod, neu'r Aelodau, heblaw aelod o'r Llywodraeth, a gaiff gynnig pwnc ar gyfer dadl fer berthnasol.

**144.** O dan Reol Sefydlog 12.72, y Llywydd sy'n penderfynu pryd y cynhelir y balot perthnasol, a sut y caiff ei redeg. Caiff y Llywydd ddewis enw mwy nag un Aelod ar y tro a gaiff gynnig pynciau ar gyfer dadleuon byr. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn hysbysu'r holl Aelodau ynghylch unrhyw benderfyniad a wneir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 12.72, gan gynnwys manylion am sut y caiff y balot ei redeg.

**145.** Rhaid i unrhyw Aelod nad yw am gael ei gynnwys yn y balot ar gyfer y Ddadl Fer roi gwybod i'r Swyddfa Gyflwyno ymlaen llaw. Caiff yr Aelod neu'r Aelodau llwyddiannus eu hysbysu, ac yn unol â'r terfynau amser arferol, bydd gofyn i'r Aelodau gyflwyno eu pwnc dewisol o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei drafod.

**146.** Gellir darparu'r pwnc i'r Swyddfa Gyflwyno mewn unrhyw fformat ond rhaid iddo:

i. beidio â chynnwys iaith y mae'r Llywydd yn ystyried ei bod yn groes i'r drefn, yn gwahaniaethu, yn peri tramgwydd neu'n amharu ar urddas y Senedd;

ii. peidio â chodi amheuaeth ynghylch cynnal busnes y Senedd yn briodol;

iii. peidio â bod yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion penodol eraill yn y Rheolau Sefydlog neu mewn statud; a

iv. dylai nodi'n glir beth yw'r pwnc.

**147.** Caiff y Swyddfa Gyflwyno wrthod pwnc a ddewiswyd os nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau hyn. Ni ellir cyflwyno unrhyw welliannau i Ddadl Fer ac nid yw'n destun pleidlais.

## Dadleuon Aelodau

**148.** Yn unol â Rheol Sefydlog 11.21(iv), rhaid neilltuo amser ym mhob blwyddyn Senedd ar gyfer dadleuon ar gynigion a gynigir gan unrhyw Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth (a elwir hefyd yn 'Ddadleuon Aelodau'). Y Pwyllgor Busnes sy'n penderfynu faint o amser a neilltuir i'r dadleuon hyn a'u hamlder. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod i'r holl Aelodau pryd y bydd pob dadl yn digwydd.

**149.** Gwahoddir Aelodau i gyflwyno cynnig cyn diwedd y diwrnod gwaith (17.00) ar y dydd Iau bythefnos cyn y ddadl a rhaid iddynt ddod o hyd i o leiaf ddau Aelod arall i'w cefnogi, ac mae'n rhaid i un ohonynt gynrychioli plaid wleidyddol wahanol. Er mwyn sicrhau'r lefel ofynnol o gefnogaeth, caiff Aelodau: gynnig cynnig ar y cyd gydag Aelodau o bleidiau gwahanol; ceisio cefnogaeth Aelodau o bleidiau eraill unwaith y bydd y cynnig wedi'i gyflwyno; neu gyfuno cynnig a gyflwynir ar y cyd â chymorth ychwanegol. Yna, bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y cynigion a gyflwynwyd gan Aelodau unigol yr wythnos cyn y ddadl ac yn penderfynu pa gynnig i'w ddethol i'w drafod. Mae gan aelodau tan 12pm ar y diwrnod ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i gael lefel y cymorth sydd ei angen er mwyn i'r cynnig gael ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes.

**150.** Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ddewis cynigion a fydd yn sicrhau cydbwysedd o'r nodweddion a ganlyn dros amser:

- cynigion sy'n codi materion lleol neu ranbarthol penodol neu faterion o bolisi cenedlaethol mewn cyd-destun lleol neu ranbarthol;
- cynigion sy'n canolbwyntio ar faterion o bwys ac arwyddocâd arbennig ar yr adeg honno neu sy'n debygol o ddenu diddordeb y cyhoedd;
- cynigion sy'n debygol o arwain at drafodaeth egnïol yn y Siambr gyda lefel uchel o gyfranogiad;
- cynigion lle nad yw'r farn wedi'i rhannu'n amlwg rhwng y pleidiau;
- cynigion sy'n ychwanegu at amrywiaeth y ddadl yn y Siambr;
- cynigion sy'n denu lefelau uchel o gefnogaeth gan Aelodau. Er na fyddai hyn yn ffactor allweddol, gellid rhoi blaenoriaeth uwch i'r cynnig.

**151.** Bydd unrhyw gynigion na ddewisir gan y Pwyllgor Busnes yn cael eu hystyried yn awtomatig yr ail waith, heblaw bod y cynnig yn cael ei dynnu yn ôl. Unwaith y bydd cynnig ar gyfer Dadl Aelod wedi cael ei ystyried ar ddau achlysur gan y Pwyllgor Busnes, ni fydd yn cael ei ystyried bellach.

## Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau

**152.** Unwaith bob hanner tymor bydd 30 munud ar gael yn ystod Cyfarfod Llawn ar gyfer dydd Mercher i drafod Cynigion Heb Ddyddiad Trafod ar gynigion deddfwriaethol Aelodau unigol. Bydd y Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi'r dyddiadau hyn yn gynnar ym mhob tymor er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r Aelodau eu cyflwyno. Ar gyfer pob dadl a drefnir, gwahoddir Aelodau i gyflwyno cynigion i'w hystyried erbyn dyddiad penodol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos Dadleuon Aelodau. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn hysbysu Aelodau o'r terfynau amser ymlaen llaw. Yna, wythnos cyn yr amser ar gyfer cynnal y ddadl, bydd y Pwyllgor Busnes yn dewis un o'r cynigion a gyflwynwyd.

**153.** Yn wahanol i Ddadleuon Aelodau, nid oes gofyniad i sicrhau cefnogaeth Aelodau eraill cyn ystyried cynigion deddfwriaethol ar gyfer dadl. Fodd bynnag, gall y Pwyllgor Busnes ystyried lefel y gefnogaeth sydd gan y gwahanol gynigion wrth benderfynu ar gynnig y dylid trefnu amser ar ei gyfer. Ni fydd y Pwyllgor Busnes ond yn trafod un cynnig a gynigir neu a gefnogir gan Aelod unigol ar y tro.

**154.** Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ddewis cynigion a fydd yn sicrhau cydbwysedd o'r nodweddion a ganlyn dros amser:

- cynigion deddfwriaethol sy'n canolbwyntio ar faterion nad ydynt wedi'u cynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Senedd, Comisiwn y Senedd, neu Aelod arall;
- cynigion deddfwriaethol sy'n canolbwyntio ar faterion o bwys ac arwyddocâd arbennig ar yr adeg honno neu sy'n debygol o ddenu diddordeb y cyhoedd;
- cynigion deddfwriaethol sy'n debygol o ennyn diddordeb sylweddol a/neu amrywiol gyda lefel uchel o gyfranogiad;
- cynigion deddfwriaethol sy'n cyflwyno dulliau arloesol o fynd i'r afael â materion.

**155.** Bydd unrhyw gynigion na ddewisir gan y Pwyllgor Busnes yn cael eu hystyried yn awtomatig yr ail waith, oni bai y caiff y cynnig ei dynnu yn ôl gan yr Aelod. Ar ôl i'r Pwyllgor Busnes drafod Cynnig Deddfwriaethol gan Aelod ddwywaith, ni chaiff ei drafod eto. Ar ôl i'r Senedd drafod cynnig ar bwnc penodol, ni fydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried dim cynigion ar yr un pwnc ar gyfer dadl. Yr eithriad yw hyn yw os gellir cyflwyno achos dros drafod cynnig ar yr un pwnc yn sgil datblygiadau penodol.

**156.** Er mwyn i gynnig gael ei ystyried, rhaid iddo fod yn gynnig sydd 'yn nodi', gan wahodd y Senedd i nodi'r cynnig am ddeddfwriaeth. Fel na chanolbwyntir ar ddim ond y cynnig fel y'i cyflwynwyd gan yr Aelod, ni fydd y Llywydd yn dethol dim gwelliannau i gynigion o'r fath ar gyfer eu trafod.

**157.** Caiff cynigion gynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd o unrhyw fath sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys Biliau, Offerynnau Statudol, Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor (o dan **Adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**) a threthi datganoledig newydd (o dan **Adran 116C**).

### Strwythur

**158.** Bydd strwythur y ddadl 30 munud fel a ganlyn:

- Wyth munud i'r Aelod i agor a chloi'r ddadl;
- Galw ar Aelodau eraill i siarad (tair munud i bob Aelod yn hytrach na'r pum munud arferol);
- Chwe munud i'r Gweinidog/ Dirprwy Weinidog ymateb.

### Y cynnig a'r dogfennau ategol

**159.** Mae'r dadleuon hyn yn rhoi cyfle i Aelodau unigol drafod syniadau posibl ar gyfer deddfwriaeth a phrofi lefel y gefnogaeth sy'n bodoli yn y Senedd y tu allan i gyfyngiadau'r broses ddeddfwriaethol ffurfiol.

**160.** Felly, pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, ni fyddai ganddo effaith sy'n rhwymo. Ni fyddai gofyniad i Lywodraeth Cymru, Aelod unigol neu un o bwyllgorau'r Senedd gyflwyno deddfwriaeth yn sgil derbyn y cynnig.

**161.** Dylai'r cynnig ei hun nodi'n glir nodau ac amcanion y ddeddfwriaeth arfaethedig, a dilyn y strwythur yn yr enghraifft isod:

*Cynnig bod y Senedd:*

*1. Yn nodi cynnig am Fil prydau ysgol iachach.*

*2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:*

*(a) gwella safonau maeth prydau ysgol, yn seiliedig ar arfer gorau ac ymchwil, a thrwy hynny ddarparu bod plant yn cael o leiaf draean o'u hanghenion maethol;*

*(b) gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg i sicrhau bod prydau a ddarperir mewn ysgolion yn cydymffurfio â'r rheoliadau maeth, gan sicrhau bod y prydau a ddarperir yn darparu i raddau helaeth draean o anghenion maeth dyddiol plentyn; ac*

*(c) caniatáu i awdurdodau addysg nodi bwydydd a diodydd penodol nad ydynt yn bodloni'r rheoliadau maeth fel y gellir eu gwahardd o adeiladau ysgol.*

**162.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.25, disgwylir i Aelodau drefnu bod unrhyw ddogfennau ategol a/neu wybodaeth ychwanegol y cyfeirir atynt yn y cynnig ar gael i bob Aelod pan fyddant yn cyflwyno'r cynnig.

## Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd: pleidleisio yn nhrafodion y Siambr (canllawiau'r Llywydd)

**163.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 6.20 a 6.21, dim ond o dan yr amgylchiadau a ganlyn y caniateir i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd bleidleisio mewn Cyfarfod Llawn:

- pan fo angen pleidlais fwrw; neu
- pan fo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i basio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd (sef 40 allan o 60 o Aelodau).

**164.** Os bydd penderfyniad ar gynnig neu welliant yn arwain at ganlyniad cyfartal, rhaid i'r Llywydd ddefnyddio pleidlais fwrw, yn unol â Rheol Sefydlog 6.20.

**165.** Pan fydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, mae Rheol Sefydlog 6.20 yn datgan,[1] rhaid i bleidlais fwrw gael ei rhoi gan y Llywydd:

- yn gadarnhaol os oes rhagor o drafod ar y mater sydd gerbron y Senedd yn bosibl; ac
- yn negyddol os nad oes rhagor o drafod yn bosibl neu os ceir pleidlais ar welliant.

**166.** Yn ganolog i hyn, mae tair egwyddor sy'n deillio o'r hyn a ddefnyddir mewn llawer o Seneddau'r Gymanwlad:

- dylai'r cadeirydd bob amser bleidleisio dros drafodaeth bellach;
- na ddylid gwneud penderfyniad heb gefnogaeth y mwyafrif, pan nad yw'n bosibl cael trafodaeth bellach; ac
- byddai testun gwreiddiol yn well na thestun wedi'i ddiwygio.

**167.** Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y rhain yn golygu y bydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn defnyddio pleidlais fwrw i wrthod cynnig a bob amser i wrthod gwelliant. Byddai'r Llywydd yn pleidleisio o blaid cynnig dim ond pe bai

[1] Nid yw cynigion lle mae angen cytundeb dwy ran o dair o Aelodau'r Senedd, wrth gwrs, yn destun pleidlais fwrw, er enghraifft, cynnig i atal y Rheolau Sefydlog.

ei dderbyn yn arwain at ystyriaeth bellach o'r cwestiwn penodol hwnnw gan y Senedd.

**168.** Mae'r achlysuron pan gaiff y Llywydd ddefnyddio pleidlais fwrw o blaid cynnig yn cynnwys pan fydd y Senedd yn penderfynu a ddylai gytuno ar egwyddorion cyffredinol i Fil (dadl Cyfnod 1), cynnig yn gofyn am ganiatâd i gyflwyno Bil Aelod a chynnig ar gyfer **Dadl Frys**.

**169.** Er enghraifft, gan mai effaith defnyddio'r bleidlais fwrw i dderbyn cynnig Cyfnod 1 fyddai caniatáu i'r Bil symud ymlaen i drafodaethau Cyfnod 2 a Chyfnod 3 (felly hefyd gydag unrhyw benderfyniad ariannol perthnasol), byddai hyn felly yn rhoi cyfle pellach i'r Senedd drafod y Bil.

**170.** Bydd yr ystyriaethau a gaiff eu gwneud gan y Llywydd wrth ddefnyddio'r bleidlais fwrw yn gosod cynseiliau ar gyfer penderfyniadau tebyg yn y dyfodol.

## Amser ar gyfer Dadleuon

**171.** *Noder y caiff y Cadeirydd ymestyn neu gyfyngu ar y dyraniad hwn yn ôl ei ddisgresiwn, ond bydd fel arfer yn cyhoeddi ar ddechrau'r ddadl os yw'n bwriadu gwneud hynny.

***Dadleuon y Llywodraeth***

| | Dadl 30 munud | Dadl 45 munud | Dadl 60 munud | Dadl 90 munud |
|---|---|---|---|---|
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i agor a chloi | Cyfanswm o 10 munud | Cyfanswm o 15 munud | Cyfanswm o 15 munud | Cyfanswm o 20 munud |
| Yr rhai sy'n cynnig gwelliannau | 5 munud | 5 munud | 5 munud | 5 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* | 5 munud* | 5 munud* | 5 munud* |
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadleuon y gwrthbleidiau*

| | Dadl 60 munud | Dadl 30 munud | Dadl 90 munud |
|---|---|---|---|
| Llefarydd/ Llefarwyr y pleidiau i agor a chloi | Cyfanswm o 15 munud | Cyfanswm o 8 munud | Cyfanswm o 20 munud |
| Yr rhai sy'n cynnig gwelliannau | 5 munud | 3 munud | 5 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* | 3 munud* | 5 munud* |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i ymateb | 8 munud | 6 munud | 12 munud |
| Llefarydd y blaid i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

***Dadleuon ar adroddiadau Pwyllgorau***

| | Dadl 30 munud | Dadl 60 munud |
|---|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor i agor a chloi | Cyfanswm o 8 munud | Cyfanswm o 15 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* | 5 munud* |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i ymateb | Cyfanswm o 5 munud | Cyfanswm o 8 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadleuon Aelodau*

| | Dadl 30 munud | Dadl 60 munud |
|---|---|---|
| Aelod unigol i agor a chloi | Cyfanswm o 8 munud | Cyfanswm o 15 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* | 5 munud* |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i ymateb | Cyfanswm o 5 munud | Cyfanswm o 8 munud |
| Aelod unigol i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Cynigion deddfwriaethol yr Aelodau*

| | Dadl 30 munud |
|---|---|
| Aelod unigol i agor a chloi | Cyfanswm o 8 munud |
| Siaradwyr eraill | 3 munud* |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i ymateb | Cyfanswm o 6 munud |
| Aelod unigol i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Cynigion ar gyfer Dirymiad*

| | Dadl 30 munud |
|---|---|
| Aelod unigol i agor a chloi | Cyfanswm o 8 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i ymateb | Cyfanswm o 6 munud |
| Aelod unigol i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol*

| | Dadl 90 munud | Dadl 60 munud | Dadl 45 munud | Dadl 30 munud | Dadl 15 munud |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i agor a chloi | Cyfanswm o 20 munud | Cyfanswm o 15 munud | Cyfanswm o 10 munud | Cyfanswm o 10 munud | 5 munud |
| Cadeirydd Pwyllgor | 10 munud | 5 munud | 5 munud | 5 munud | 5 munud |
| Yr rhai sy'n cynnig gwelliannau | 5 munud | 5 munud | 5 munud | 5 munud | 5 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud | 5 munud* | 5 munud* | 5 munud* | 5 munud* |
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | 5 munud |

*Datganiad ar y Gyllideb Ddrafft (90 munud)*

| | 90 munud |
|---|---|
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i agor | 15 munud |
| Y siaradwr cyntaf o bob grŵp anllywodraethol | 10 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud |
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i gloi | 10 munud |

*Dadl ar y Gyllideb Ddrafft (120 munud)*

| | 90 munud |
|---|---|
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i agor | Cyfanswm o 20 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid | 10 munud |
| Y siaradwr cyntaf o bob grŵp anllywodraethol a rheini sy'n cynnig gwelliannau | 10 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud |

| | |
|---|---|
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadl frys a gynigir gan Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth*

| | Dadl 60 munud | Dadl 90 munud |
|---|---|---|
| Yr Aelod sy'n cynnig i agor a chloi | Cyfanswm o 15 munud | Cyfanswm o 20 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud | 5 munud |
| Aelod o'r Llywodraeth/Comisiynydd (os na chynigiwyd y ddadl gan aelod o'r Llywodraeth neu'r Comisiwn) | 8 munud | 12 munud |
| Yr Aelod sy'n cynnig i agor a chloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadl frys a gynigir gan aelod o'r Llywodraeth/ aelod o'r Comisiwn*

| | Dadl 60 munud | Dadl 90 munud |
|---|---|---|
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog/Comisiynydd i agor a chloi | Cyfanswm o 15 munud | Cyfanswm o 20 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* | 5 munud* |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog/Comisiynydd i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadleuon sy'n ceisio caniatâd y Senedd i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod*

| | Dadl 60 munud |
|---|---|
| Yr Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth i agor a chloi | Cyfanswm o 15 munud |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i siarad ar ran y Llywodraeth | 8 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* |
| Yr Aelod sy'n gyfrifol i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadleuon Cyfnod 1 (y Llywodraeth)*

| | Dadl 60 munud |
|---|---|
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i agor a chloi | Cyfanswm o 15 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor | 8 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (os yw'n briodol) | 5 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (os yw'n briodol) | 5 munud |
| Yr rhai sy'n cynnig gwelliannau | 5 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* |
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadleuon Cyfnod 1 ar Fil (Aelod Arfaethedig)*

| | Dadl 60 munud |
|---|---|
| Yr Aelod sy'n gyfrifol i agor a chloi | Cyfanswm o 15 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor | 8 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (os yw'n briodol) | 5 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (os yw'n briodol) | 5 munud |
| Yr rhai sy'n cynnig gwelliannau | 5 munud |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i siarad | 8 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* |
| Yr Aelod sy'n gyfrifol i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadleuon Cyfnod 1 ar Fil (Arfaethedig Pwyllgor)*

| | Dadl 60 munud |
|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor sy'n gyfrifol i agor a chloi | Cyfanswm o 15 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (os yw'n briodol) | 5 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (os yw'n briodol) | 5 munud |
| Yr rhai sy'n cynnig gwelliannau | 5 munud |
| Y Gweinidog/ Dirprwy Weinidog i siarad | 8 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud* |
| Cadeirydd y Pwyllgor sy'n gyfrifol i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Dadleuon Cyfnod 3 ar Fil*

Caiff pob siaradwr 10 munud.

*Dadleuon Cyfnod 4 ar Fil*

| | Dadl 15 munud |
|---|---|
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog/yr Aelod sy'n gyfrifol i agor a chloi | Cyfanswm o 5 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud |
| Y Gweinidog/Dirprwy Weinidog (y siaradwr olaf ond un os nad yw'n Fil Llywodraeth) | 5 munud |
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog/yr Aelod sy'n gyfrifol i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

*Y Ddadl Ystyriaeth Gychwynnol ar Fil Cydgrynhoi*

| | Dadl 45 munud |
|---|---|
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i agor a chloi | Cyfanswm o 12 munud |
| Cadeirydd y Pwyllgor | 8 munud |
| Yr rhai sy'n cynnig gwelliannau | 5 munud |
| Siaradwyr eraill | 5 munud |
| Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog i gloi | (Amser sy'n weddill o'r dyraniad) |

# 5. Datganiadau Barn

**172.** Mae Rheol Sefydlog 14.9 yn caniatáu i Aelodau, nad ydynt yn aelodau o'r Llywodraeth, gyflwyno Datganiad Barn nad yw'n hwy na 100 o eiriau ar fater sy'n effeithio ar Gymru. Caiff unrhyw Aelod gefnogi, wrthwynebu neu ddiwygio'r Datganiadau Barn hyn.

**173.** Mae Datganiadau Barn yn fodd i Aelodau dynnu sylw at faterion sy'n peri pryder neu dynnu sylw at ddigwyddiadau a chyflawniadau drwy gofnodi eu barn a cheisio cefnogaeth gan Aelodau eraill.

## Cynnwys y Datganiadau

**174.** Caniateir i Ddatganiad gael ei gyflwyno gan un Aelod neu gael ei gyd-gyflwyno gydag Aelodau eraill. Nid oes cyfyngiad ar nifer yr Aelodau a all roi cefnogaeth i'r Datganiad.

**175.** Caiff Aelodau gyflwyno gwelliannau i ddatganiad Aelod arall ond dim ond os nad ydynt wedi ei gefnogi, gan fod hyn yn nodi cytundeb yr Aelod â'r datganiad cyfan. Rhaid cyflwyno gwelliannau yn yr un modd â'r datganiad gwreiddiol ac ni ddylent gynyddu cyfanswm hyd y Datganiad i fod yn hwy na 100 o eiriau.

**176.** Gellir cefnogi gwelliannau yn union yr un ffordd â Datganiad.

**177.** Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn cadw cofnod o bob Datganiad Barn a'r Aelodau sydd wedi'u codi, eu cefnogi neu eu diwygio a chyhoeddir y wybodaeth ar y Cofnod.

**178.** Mae Datganiadau Barn a gwelliannau i'w cefnogi neu eu gwrthwynebu yn parhau'n berthnasol ar gyfer gweddill y Senedd lle cawsant eu cyflwyno. Ar ddiwedd Senedd byddant yn methu, er y gellir eu cyflwyno eto fel Datganiadau newydd yn y Senedd nesaf.

**179.** Wrth wneud Datganiad Barn neu gyflwyno gwelliant i un, mae'n bwysig cofio na ddylent:

i. fod yn hwy na 100 o eiriau;

ii. cynnwys iaith y mae'r Llywydd yn ystyried ei bod yn groes i'r drefn, yn gwahaniaethu, yn peri tramgwydd neu'n amharu ar urddas y Senedd; neu

iii. cyfeirio at faterion sub judice;

iv. codi amheuaeth ynghylch cynnal busnes y Senedd yn briodol.

**180.** Y Llywydd sydd â'r penderfyniad terfynol ar dderbynioldeb Datganiad.

# 6. Gosod dogfennau

**181.** Mae Rheol Sefydlog 15 yn darparu ar gyfer gosod categorïau penodol o ddogfennau gerbron y Senedd.

## Gweithdrefnau gosod

**182.** Os bydd Rheol Sefydlog 15 yn darparu ar gyfer gosod dogfen, rhaid i'r sawl sy'n gosod y ddogfen:

i. gwblhau'r ffurflen berthnasol (ar gael o'r Swyddfa Gyflwyno neu drwy Fewnrwyd yr Aelodau);

ii. nodi'r ddeddfwriaeth benodol neu'r ddarpariaeth yn y Rheolau Sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i'r ddogfen gael ei gosod; a

iii. cyflwyno'r ffurflen i'r Swyddfa Gyflwyno gyda fersiwn electronig o'r ddogfen/dogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg, i'r graddau y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

## Mynediad at ddogfennau

**183.** Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn sicrhau bod yr holl ddogfennau a osodir yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Senedd.

## Dogfennau a ddosberthir er gwybodaeth

**184.** Os na fydd Rheol Sefydlog 15 yn darparu ar gyfer gosod dogfen, ni ellir gosod y ddogfen honno'n ffurfiol gerbron y Senedd. Gall dogfennau a ddosberthir i Aelodau er gwybodaeth gael eu hanfon drwy e-bost neu eu rhoi yn y Llyfrgell, neu'r ddau.

# 7. Gweithdrefnau ac arferion perthnasol eraill

## Egwyddorion ymddygiad yn y Siambr

### Prif egwyddorion

**185.** Rheol Sefydlog 13 sy'n nodi'r drefn ar gyfer dadleuon. Rhaid i Aelodau bob amser ymddwyn mewn modd sy'n hyrwyddo parch at y Senedd ac yn dangos parch a chwrteisi at Aelodau eraill. Rhaid i Aelod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd ynghylch ymddygiad yn y Siambr a threfn y Cyfarfod Llawn.

### Egwyddorion cyffredinol

**186.** Yn ogystal, mae'r pwyntiau a ganlyn yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud â phresenoldeb Aelodau, a chyfranogiad yn y Cyfarfod Llawn:

- dylai Aelodau roi blaenoriaeth i fynychu Cyfarfodydd Llawn;
- ni chaiff Aelodau ddod â bwyd, diod (ac eithrio dŵr) nac offer electronig a allai ymyrryd ar y trafodion gyda hwy i'r Siambr;
- dim ond pan fyddant yn cael eu galw gan y Llywydd i wneud hynny y caiff Aelodau siarad yn y trafodion;
- caiff siaradwyr eu galw yn ôl disgresiwn y cadeirydd;
- dim ond un Aelod a gaiff siarad ar y tro;
- caiff Aelodau siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg;
- caiff yr Aelodau y mae'r Llywydd yn galw arnynt i siarad naill ai sefyll neu eistedd yn eu lleoedd a rhaid iddynt annerch y cadeirydd;
- pan fydd y Llywydd yn siarad, ni chaiff yr Aelodau siarad ac os byddant ar eu traed rhaid iddynt eistedd;
- disgwylir i'r Aelodau sydd am siarad fod yn bresennol yn y Siambr drwy gydol yr eitem fusnes, a disgwylir iddynt aros am weddill eitem ar ôl iddynt siarad.

## Rheolau'r dadleuon

**187.** Bydd y **terfynau amser** ar gyfer areithiau yn cael eu pennu gan y Llywydd a'u hysbysu i'r Aelodau; fodd bynnag, y terfyn amser safonol yw 5 munud fel arfer. Os bydd y Llywydd yn cael llawer o geisiadau i siarad yn ystod dadl, caiff gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 13.5, terfyn amser pellach ar gyfer cyfraniadau. Caiff y Llywydd hefyd ofyn i Aelod sydd wedi siarad yn rhy hir i roi'r gorau i siarad.

**188.** Wrth alw Aelodau i siarad, bydd y cadeirydd yn rhoi sylw i gydbwysedd y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.

**189.** Fel egwyddor gyffredinol, mae'n rhaid i bob araith fod yn berthnasol i fusnes, yn gryno ac osgoi ailadrodd diflas (Rheol Sefydlog 13.4).

**190.** Fel rheol, dim ond unwaith y caiff Aelodau siarad ar unrhyw fater oni bai mai nhw a gynigiodd y cynnig a'u bod am arfer hawl i ateb neu, â chaniatâd y Llywydd, esbonio rhyw bwynt perthnasol yn eu haraith wreiddiol (Rheol Sefydlog 13.6).

**191.** Caiff Aelod sy'n siarad ganiatáu i Aelod arall ymyrryd er mwyn egluro ryw bwynt. Dylai ymyriadau fod yn fyr ac ni chaiff yr Aelod sy'n ymyrryd ganiatáu i Aelod arall ymyrryd. Nid oes hawl ymyrryd, o dan Reol Sefydlog 13.7, ac nid mater i'r cadeirydd ydyw os yw'r Aelod sy'n siarad yn gwrthod caniatáu i Aelod arall ymyrryd.

**192.** Ni ddylai dadleuon fod yn gyfres o areithiau ac ni ddylai Aelodau ddarllen areithiau a baratowyd ymlaen llaw heb ystyried y cyfraniadau eraill a wnaed. Dylai'r Aelodau aros yn y Siambr i glywed unrhyw sylwadau a wneir mewn ymateb i'w hareithiau. Dylai Aelodau hysbysu'r cadeirydd ymlaen llaw os na allant aros ar gyfer y ddadl gyfan a dylent hefyd ymddiheuro i'r Siambr.

## Iaith ac ymddygiad

**193.** Yn unol â Rheol Sefydlog 13.9, y Llywydd sy'n cadw trefn yn y Cyfarfodydd Llawn a rhaid i'r Llywydd alw i drefn unrhyw Aelod:

i. sy'n ymddwyn mewn ffordd a fyddai, ym marn y Llywydd, yn gyfystyr â thramgwydd troseddol neu ddirmyg llys;

ii. sy'n rhwystro busnes y Senedd;

iii. sy'n ceisio codi mater sydd y tu hwnt i gwmpas y ddadl neu'r cynnig;

iv. sy'n euog o ymddygiad anghwrtais neu amhriodol;

v. sy'n defnyddio iaith sy'n groes i'r drefn, iaith sy'n gwahaniaethu neu sy'n peri tramgwydd, neu iaith sy'n amharu ar urddas y Senedd;

vi. sy'n gwrthod cydymffurfio ag unrhyw Reol Sefydlog neu ag unrhyw ofyniad arall ynglŷn ag ymddygiad Aelodau; neu

vii. sy'n anwybyddu awdurdod y cadeirydd.

**194.** Bydd y Llywydd yn penderfynu beth yw iaith sy'n groes i'r drefn. Ystyrir bod cyfeiriadau hiliol, rhywiaethol ac sy'n gwahaniaethu o ran oedran yn iaith sy'n gwahaniaethu ac sy'n peri tramgwydd.

**195.** Rhaid i Aelod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd ynghylch unrhyw ymddygiad sydd wedi peri ei alw i drefn (Rheol Sefydlog 13.10).

**196.** O dan Reol Sefydlog 13.11, caiff y Llywydd hefyd ofyn i Aelod ymneilltuo o drafodion y Senedd am weddill y dydd os yw'r Llywydd o'r farn bod yr ymddygiad yn cyfiawnhau ymneilltuo.

**197.** Os na fydd Aelod yn ymneilltuo o'r trafodion pan fydd y Llywydd yn gofyn iddo wneud hynny, caiff y Llywydd wneud cynnig i wahardd yr Aelod o drafodion y Senedd a rhaid pleidleisio arno ar unwaith. Os derbynnir y cynnig, caiff yr Aelod ei wahardd ar unwaith yn unol â Rheol Sefydlog 13.13.

**198.** Tra bydd Aelod wedi'i wahardd ni fydd gan yr Aelod hawl i gael dim cyflog gan y Senedd ac ni chaniateir iddo fynychu unrhyw un o drafodion y Senedd (Rheol Sefydlog 13.14).

**199.** O dan Reol Sefydlog 12.18, lle bydd y Llywydd yn credu bod hynny'n briodol (gan gynnwys unrhyw achos o anhrefn difrifol), caiff y Llywydd ohirio'r trafodion heb gynnal pleidlais ar unrhyw gynnig, neu caiff atal y trafodion dros dro am gyfnod penodedig.

## Braint

**200.** O dan **adran 42 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru**, at ddibenion cyfraith difenwi yn unig, mae braint absoliwt yn berthnasol i unrhyw ddatganiad a wneir yn nhrafodion y Senedd. Ystyrir bod honiadau personol yn erbyn Aelodau neu bobl eraill yn dramgwyddus. Mae hyn yn cynnwys honiadau o ddweud

celwydd, honiadau o arferion llwgr, annheg neu anghyfreithlon a honiadau o gamliwio bwriadol.

## Sub judice

**201.** Yn unol â Rheol Sefydlog 13.15, rhaid i Aelodau beidio â chodi unrhyw fater na mynd ar drywydd unrhyw fater mewn Cyfarfodydd Llawn sy'n ymwneud ag achosion llys sydd ar waith (fel y'u diffinnir yn **Atodlen 1 i Ddeddf Dirmygu Llys 1981**), ac eithrio i'r graddau a ganiateir gan y Llywydd. Cyn caniatáu i faterion o'r fath gael eu codi, byddai'r Llywydd am fod yn fodlon:

i. bod gan y mater berthynas glir â mater o bwys cyhoeddus cyffredinol neu fod penderfyniad gweinidogol o dan sylw;

ii. nad yw'r mater yn ymwneud ag achos sydd i'w wrando, neu sy'n cael ei wrando, gerbron llys troseddau neu gerbron rheithgor neu ag achos sydd i'w wrando, neu sy'n cael ei wrando, mewn achos teuluol; ac

iii. nad yw'r Aelod, yn ei sylwadau, yn creu risg real a sylweddol o ragfarnu achos llys, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag achos penodol.

## Cysylltiadau â'r Farnwriaeth

**202.** Yn unol â Rheol Sefydlog 13.16, rhaid i Aelodau beidio yn y Cyfarfodydd Llawn â beirniadu ymddygiad barnwyr llysoedd y DU wrth iddynt gyflawni eu swyddogaeth farnwrol.

**203.** Yn ogystal â hynny, o dan Reol Sefydlog 13.17, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod penodiadau barnwrol unigol.

## Aelodau nad ydynt yn siarad yn ystod dadl

**204.** Disgwylir i'r Aelodau nad ydynt yn siarad wrando'n gwrtais ar y ddadl ac ni ddylent ymyrryd ar yr Aelod sy'n siarad.

**205.** Dylid anfon unrhyw negeseuon gan swyddogion neu staff y tu allan i'r Siambr yn electronig at yr Aelod neu eu trosglwyddo i'r tywyswyr yn y Siambr.

## Defnyddio deunydd clyweledol

### Trafodion rhithwir a hybrid

**206.** Oherwydd y cymhlethdod technegol, ni chaniateir defnyddio deunydd clyweledol mewn Cyfarfodydd Llawn rhithwir neu hybrid.

## Pleidleisio drwy ddirprwy

### Cyflwyniad

**207.** Caiff y gweithdrefnau ar gyfer arfer Pleidlais drwy Ddirprwy eu nodi o dan Reolau Sefydlog 12.41A-G.

### Absenoldeb Rhiant

#### Cymhwystra

**208.** Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau genedigaeth, gofalu am faban neu blentyn sydd newydd ei fabwysiadu, neu sy'n rhan o drefniant benthyg croth, neu oherwydd camesgoriad neu farw-enedigaeth.

**209.** Rhaid i Aelod ddangos cymhwystra ar gyfer y cynllun drwy hysbysu'r Llywydd am eu bwriad i gymryd absenoldeb rhiant, a darparu unrhyw ddogfennaeth neu fathau o hysbysiad ychwanegol sy'n briodol ym marn y Llywydd.

**210.** Nid yw'r cynllun yn orfodol ac mae Aelodau'n rhydd i bleidleisio'n bersonol neu ddefnyddio unrhyw drefniadau paru anffurfiol eraill sydd ar gael iddynt.

**211.** Os bydd unrhyw amwysedd, bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ar gydymffurfedd â'r cynllun pleidleisio drwy ddirprwy.

#### Hyd

**212.** Yn amodol ar ddisgresiwn y Llywydd, cyfnod hwyaf yr hawl i bleidleisio drwy ddirprwy yw:

- saith mis i fam fiolegol baban; y prif fabwysiadwr neu fabwysiadwr sengl sy’n mabwysiadu baban neu blentyn; neu'r prif ofalwr neu ofalwr sengl mewn trefniant geni ar ran pobl eraill; a
- saith mis i'r tad biolegol neu bartner yr unigolyn sy'n rhoi genedigaeth sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn; yr ail fabwysiadwr ar gyfer baban neu blentyn; neu ail ofalwr ar gyfer baban neu blentyn mewn trefniant geni ar ran pobl eraill.

**213.** O hyn, bydd uchafswm o bedair wythnos yn cael ei gymryd cyn y dyddiad y disgwylir genedigath y baban, y dyddiad mabwysiadu neu ddyddiad benthyg

croth ac uchafswm o chwe mis ar ôl y dyddiad y disgwylir genedigath y baban, y dyddiad mabwysiadu neu ddyddiad benthyg croth.

**214.** Bydd hyd y cyfnod yn cynnwys cyfnodau pan fydd y Senedd mewn toriad neu wedi'i diddymu. Mewn amgylchiadau eithriadol gall y Llywydd ddefnyddio disgresiwn i amrywio'r hyd.

**215.** Rhaid i Aelod nodi'n ysgrifenedig i'r Llywydd y dyddiadau y bydd yr absenoldeb yn dechrau ac yn dod i ben, yn amodol ar y cyfnodau hwyaf a ganiateir. Mae gan yr Aelod hawl i fwrw pleidlais drwy ddirprwy am y cyfnod a bennir yn y dystysgrif a roddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 12.41E (paragraff 232).

**216.** Defnyddir disgresiwn y Llywydd i bennu cymhwystra a'r cyfnodau hwyaf ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy pan fydd Aelodau neu eu partneriaid wedi dioddef camesgoriad neu enedigaeth farw. Wrth bennu ffactorau o'r fath, bydd y Llywydd yn ystyriol o hawliau statudol.

## Salwch neu anaf hirdymor a chyfrifoldebau gofalu

### Cymhwystra

**217.** Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau salwch neu anaf personol hirdymor, neu oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.

**218.** Rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd am eu bwriad i gymryd absenoldeb, a darparu unrhyw ddogfennaeth neu fathau o hysbysiad ychwanegol sy'n briodol ym marn y Llywydd.

**219.** Nid yw'r cynllun yn orfodol ac mae Aelodau'n rhydd i bleidleisio'n bersonol neu ddefnyddio unrhyw drefniadau paru anffurfiol eraill sydd ar gael iddynt.

**220.** Os bydd unrhyw amwysedd, bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ar gydymffurfedd â'r cynllun pleidleisio drwy ddirprwy.

### Hyd

**221.** Hyd arferol yr hawl i bleidleisio trwy ddirprwy yw o leiaf bedair wythnos ac uchafswm o chwe mis, gan gynnwys cyfnodau pan fo'r Senedd mewn toriad neu wedi'i diddymu. Mewn amgylchiadau eithriadol gall y Llywydd ddefnyddio disgresiwn i estyn hyd trefniadau pleidleisio drwy ddirprwy.

**222.** Rhaid i Aelod nodi'n ysgrifenedig i'r Llywydd y dyddiadau y bydd yr absenoldeb yn dechrau ac yn dod i ben, yn amodol ar y cyfnodau hwyaf a ganiateir. Mae gan yr Aelod hawl i fwrw pleidlais drwy ddirprwy am y cyfnod a bennir yn y dystysgrif a roddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 12.41E (paragraff 232).

## Profedigaeth

### Cymhwystra

**223.** Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau profedigaeth.

**224.** Rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd am eu bwriad i gymryd absenoldeb, a darparu unrhyw ddogfennaeth neu fathau o hysbysiad ychwanegol sy'n briodol ym marn y Llywydd.

**225.** Nid yw'r cynllun yn orfodol ac mae Aelodau'n rhydd i bleidleisio'n bersonol neu ddefnyddio unrhyw drefniadau paru anffurfiol eraill sydd ar gael iddynt.

**226.** Os bydd unrhyw amwysedd, bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ar gydymffurfedd â'r cynllun pleidleisio drwy ddirprwy.

### Hyd

**227.** Mae hyd pleidlais drwy ddirprwy oherwydd profedigaeth i'w gytuno rhwng yr Aelod a'r Llywydd, a gellir ei estyn yn ôl disgresiwn y Llywydd. Bydd hyd y cyfnod yn cynnwys cyfnodau pan fydd y Senedd mewn toriad neu wedi'i diddymu.

**228.** Rhaid i Aelod nodi'n ysgrifenedig i'r Llywydd y dyddiadau y bydd yr absenoldeb yn dechrau ac yn dod i ben. Mae gan yr Aelod hawl i fwrw pleidlais drwy ddirprwy am y cyfnod a bennir yn y dystysgrif a roddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 12.41E (paragraff 232).

## Darpariaethau cyffredinol

**229.** Mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys ym mhob amgylchiad.

**230.**

## Dynodi dirprwy

**231.** Wrth nodi dyddiadau'r absenoldeb, rhaid i'r Aelod sy'n gymwys i bleidleisio drwy ddirprwy enwi'r Aelod sydd wedi cytuno i bleidleisio ar eu rhan fel dirprwy, a thrwy hynny gadarnhau bod cytundeb wedi'i wneud.

**232.** Mae Aelod yn rhydd i ddewis unrhyw Aelod arall i bleidleisio ar eu rhan fel dirprwy, ar yr amod bod yr Aelod arall yn cytuno a bod y Llywydd yn cael ei hysbysu.

## Cyhoeddi'r trefniant

**233.** Ar ôl cael y wybodaeth hon, ac unwaith y bydd y Llywydd wedi penderfynu ynghylch cydymffurfedd, bydd y Llywydd yn cyflwyno tystysgrif yn nodi enw'r Aelod a enwebwyd yn ddirprwy a'r dyddiadau dechrau a gorffen. Bydd y dystysgrif yn nodi bod y bleidlais drwy ddirprwy wedi'i rhoi am resymau'n ymwneud ag absenoldeb rhiant, salwch neu anaf hirdymor, cyfrifoldebau gofalu neu brofedigaeth, ond ni fydd yn nodi unrhyw fanylion pellach mewn perthynas â'r amgylchiadau.

**234.** Bydd y crynodeb o bleidleisiau ar gyfer pob Cyfarfod Llawn neu Bwyllgor o'r Senedd Gyfan yn nodi bod pleidlais drwy ddirprwy wedi'i bwrw drwy restru'r Aelod a sut y gwnaeth bleidleisio yn y ffordd arferol, yn unol â Rheolau Sefydlog 12.48 a 17.35, a thrwy nodi pa Aelod a fwriodd y bleidlais drwy ddirprwy ar eu rhan.

## Amrywio'r trefniant

**235.** O ran Aelod sydd am newid ei ddirprwy ar eu rhan, dod â'r cyfnod o bleidleisio drwy ddirprwy i ben yn gynharach na'r hyn a hysbyswyd yn wreiddiol, neu fwrw pleidlais yn bersonol ar (a) eitem(au) busnes penodol, neu atal y trefniant am gyfnod o amser, rhaid iddynt roi rhybudd ysgrifenedig i'r Llywydd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r amgylchiadau a arweiniodd at wneud y cais ddod yn hysbys (er enghraifft, cyhoeddi agenda'r Cyfarfod Llawn, cyflwyno cynnig). Gall Aelod hefyd ofyn am gymryd rhan yn nhrafodion y Senedd tra mae'n meddu ar bleidlais drwy ddirprwy. Bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ynghylch cydymffurfio yn yr amgylchiadau hyn.

**236.** Bydd y Llywydd yn cyhoeddi ac yn gosod tystysgrif newydd o dan baragraff 233 os bydd angen.

**237.** Bydd newidiadau o ran dirprwy a wneir am gyfnod penodol yn dod i rym o ddechrau (neu ddiwedd) y diwrnod(au) a nodir.

## Arfer pleidlais drwy ddirprwy

**238.** Rhaid i Aelod sy'n gymwys i bleidleisio drwy ddirprwy gytuno â'r Aelod a enwebir yn ddirprwy ar eu rhan pryd y bydd y bleidlais ddirprwy yn cael ei bwrw a sut y bydd yn cael ei harfer ar gyfer pob pleidlais.

**239.** Rhaid i Aelod a ddynodir yn ddirprwy weithredu yn unol â'r cyfarwyddyd a roddir gan yr Aelod absennol.

**240.** Caiff Aelod a ddynodir yn ddirprwy fwrw eu pleidlais ei hun un ffordd a bwrw pleidlais fel dirprwy y ffordd arall, a chaiff fwrw pleidlais fel dirprwy heb fwrw eu pleidlais ei hun o gwbl.

**241.** O ran Aelod y cofrestrwyd eu bod yn pleidleisio drwy ddirprwy ac sydd am bleidleisio'n bersonol, bydd ganddynt hawl i wneud hynny, ar yr amod yr hysbyswyd y Llywydd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r amgylchiadau a arweiniodd at wneud y cais ddod yn hysbys. Bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ynghylch cydymffurfiaeth yn yr amgylchiadau hyn.

**242.** Rhaid i Aelod sy'n gymwys i bleidleisio drwy ddirprwy hysbysu'r Aelod a enwir yn ddirprwy ar ei ran am unrhyw fuddiant perthnasol sy'n eu gwahardd rhag pleidleisio o dan Reol Sefydlog 2.9.

## Trefniadau ymarferol ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy

**243.** Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau ymarferol gyda'r Aelod a enwebir yn ddirprwy i arfer y bleidlais drwy ddirprwy.

# 8. Deiliaid Swyddi

## Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd

**244.** Mae’r gweithdrefnau ar gyfer ethol y Llywydd a’r Dirprwy Lywydd wedi eu nodi yn Rheol Sefydlog 6.

**245.** Yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad Senedd, caiff y Llywydd ei ethol yn gyntaf, ac yna’r Dirprwy Lywydd. Ni chaiff y Llywydd presennol gadeirio'r trafodion os yw am gael ei enwebu i'w ethol yn Llywydd. Pe bai’r Llywydd presennol yn dymuno sefyll fel Llywydd, bydd y Clerc yn cadeirio trafodion yr etholiad.

### Trefniadau ar gyfer pleidleisiau cyfrinachol

**246.** Bydd angen pleidlais gyfrinachol pan fydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu enwebiad unigol, neu os oes mwy nag un enwebiad. Bydd y Cadeirydd yn gohirio’r cyfarfod (am gyfnod i’w bennu gan y Cadeirydd) a bydd yn datgan pryd fydd y cyfnod pleidleisio yn dod i ben. Bydd y gloch yn canu er mwyn nodi bod y bwth pleidleisio ar agor.

**247.** Cynhelir y bleidlais gyfrinachol mewn man penodedig yn adeilad y Senedd. Bydd y tywyswyr ar gael i roi cyfarwyddiadau i’r Aelodau.

**248.** Bydd ffurflenni pleidleisio yn cael eu hargraffu pan fydd enwau'r ymgeiswyr yn hysbys. Defnyddir lliw gwahanol ar gyfer pob cylch pleidleisio (os oes angen).

**249.** Bydd yr Aelodau yn cael eu papurau pleidleisio wrth fynd i mewn i'r man penodedig. Bydd eu henwau yn cael eu gwirio ar restr sydd gan swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Siambr.

**250.** Bydd yr Aelodau’n pleidleisio mewn bwth pleidleisio. Bydd papurau pleidleisio yn cael eu rhoi gan Aelodau mewn blwch pleidleisio.

**251.** Bydd y bleidlais yn para tan fydd pob Aelod wedi pleidleisio neu am 30 munud (pa un bynnag a ddaw gyntaf).

**252.** Clerc y Senedd fydd yn gyfrifol am oruchwylio’r bleidlais a’r broses o gyfrif y pleidleisiau.

**253.** Os nad oes ond un enwebiad, gofynnir i'r Aelodau bleidleisio o blaid neu yn erbyn yr Aelod a enwebwyd. Os bydd sawl enwebiad, gofynnir i’r Aelodau ddewis yr ymgeisydd y maent yn ei ffafrio. Yn y naill achos a'r llall, gall yr Aelodau ymatal rhag pleidleisio.

**254.** Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu a'r naill a'r llall wedi cael nifer gyfartal o bleidleisiau yn y bleidlais gudd, cynhelir rhagor o bleidleisiau cudd nes i un ymgeisydd gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.

**255.** Os bydd mwy na dau Aelod wedi’u henwebu ac os na fydd yr un ohonynt yn cael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd, bydd yr ymgeisydd sydd â’r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu o’r broses.  Cynhelir rhagor o bleidleisiau cyfrinachol nes i un ymgeisydd gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.


**256.** Bydd y gloch yn canu i ailddechrau’r cyfarfod a bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad yr etholiad yn y Siambr. Bydd yr Aelod a etholir i fod yn Llywydd yn tyngu’r llw os nad yw wedi gwneud hynny eisoes, a bydd yn mynd i’r gadair ar unwaith i gadeirio unrhyw fusnes sy’n weddill ar agenda’r Cyfarfod Llawn, gan gynnwys ethol y Dirprwy Lywydd.

## Enwebu'r Prif Weinidog

**257.** Rhaid i'r Senedd enwebu Prif Weinidog cyn pen 28 diwrnod ar ôl etholiad Senedd. Nodir y weithdrefn ar gyfer enwebu'r Prif Weinidog yn Rheol Sefydlog 8.

**258.** Gellir enwebu Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad neu yn ystod unrhyw Gyfarfod Llawn dilynol, ar yr amod bod y Senedd yn penderfynu gwneud hynny yn unol â Rheol Sefydlog 12.11. Bydd y Llywydd yn gwahodd y Senedd i gytuno y caiff enwebiadau eu gwneud. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, gelwir pleidlais electronig. Bydd trafodion enwebu yn digwydd dim ond os bydd mwyafrif yr Aelodau sy'n pleidleisio yn cytuno â hynny.

**259.** Amlinellir y broses ar gyfer enwebu'r Prif Weinidog isod:




### Galw'r gofrestr

**260.** Os bydd angen cynnal pleidlais drwy alw cofrestr, bydd y Llywydd yn gofyn i bob un o'r Aelodau sy'n bresennol (yn nhrefn y wyddor) ddatgan enw'r ymgeisydd y maent yn ei ffafrio. Bydd cyfle i'r Aelodau ymatal rhag pleidleisio hefyd. Ni chaniateir i'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd bleidleisio.

**261.** Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu (neu os bydd dau ymgeisydd ar ôl wedi i'r gweddill gael eu tynnu o'r broses), a bod canlyniadau'r broses galw cofrestr yn gyfartal, bydd pleidlais drwy alw cofrestr yn digwydd eto. Caiff y Llywydd atal neu ohirio'r cyfarfod ar unrhyw adeg os yw'n credu bod hynny'n briodol. Caniateir i enwebiad gael ei dynnu'n ôl rhwng y cylchoedd pleidleisio.

**262.** Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac os na fydd yr un ohonynt yn cael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd, bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu o'r broses. Cynhelir pleidleisiau pellach drwy alw'r gofrestr nes y bydd gan un ymgeisydd dros hanner y pleidleisiau sy'n cael eu bwrw.

## Canlyniad yr enwebiad

**263.** Bydd y Llywydd yn argymell i'w Fawrhydi ar unwaith y dylai'r Aelod a enwebwyd gan y Senedd gael ei benodi'n Brif Weinidog. Gwneir hyn drwy anfon e-bost at y Palas ar ran y Llywydd.

**264.** Mae'n bosibl y bydd y sawl a enwebir i'w benodi'n Brif Weinidog yn dymuno traddodi araith yn syth ar ôl yr enwebiad.

## Ethol Cadeirydd Pwyllgor

**265.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 17.2A–D, ar gyfer pob pwyllgor a sefydlir gan y Senedd, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig i ddyrannu cadeirydd i bob grŵp gwleidyddol. Wrth gyflwyno'r cynnig, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes ystyried cydbwysedd gwleidyddol y cadeiryddion. Yna mae'n rhaid i'r Senedd ystyried y cynnig hwnnw, a rhaid i o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau gytuno er mwyn iddo basio.

**266.** Yn yr un modd, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.2L–R, os bydd swydd cadeirydd yn wag:

- rhaid i'r Pwyllgor Busnes ystyried effaith y swydd wag honno ar gydbwysedd cadeiryddion y pwyllgorau o ran y grwpiau gwleidyddol; a
- chaiff y Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig i newid y grŵp gwleidyddol y caniateir ethol cadeirydd y pwyllgor lle y cododd y swydd wag ohono.

**267.** Yn dilyn yr ystyriaeth uchod, rhaid llenwi swydd wag drwy gynnal etholiad.

### Gwahoddiad enwebiadau

**268.** Bydd y Llywydd yn galw am enwebiadau ar gyfer cadeiryddion y pwyllgorau yn y Cyfarfod Llawn.

**269.** Dim ond Aelod o'r grŵp gwleidyddol y dyrannwyd y pwyllgor hwnnw iddo a all gael ei enwebu yn gadeirydd, a dim ond Aelod o'r un grŵp gwleidyddol sy'n cael cynnig yr enwebiad. Pan fydd gan grŵp gwleidyddol fwy nag 20 o Aelodau, mae'n rhaid i'r sawl a enwebir gael ei eilio gan Aelod arall yn yr un blaid wleidyddol. Nid oes angen eilydd ar grwpiau gwleidyddol sydd â llai nag 20 o Aelodau.

**270.** Caiff y Llywydd wahodd enwebiadau ar gyfer nifer o gadeiryddion yn yr un sesiwn, ond ni chaniateir enwebu Aelod fel cadeirydd mwy nag un pwyllgor ar y tro.

**271.** Os enwebir un Aelod yn unig, rhaid i'r Llywydd ofyn i'r Senedd a oes unrhyw wrthwynebiad. Os nad oes gwrthwynebiad, rhaid i'r Llywydd gyhoeddi bod yr Aelod hwnnw wedi cael ei ethol yn gadeirydd y pwyllgor. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid i'r Llywydd drefnu bod yr etholiad yn cael

ei gynnal drwy bleidlais gyfrinachol. Rhaid i'r Aelod gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd i gael ei ethol.

**272.** Os ceir dau neu ragor o enwebiadau, rhaid i'r Llywydd drefnu bod yr etholiad yn cael ei gynnal drwy bleidlais gyfrinachol.

**273.** Os oes angen enwebiadau ar gyfer mwy nag un swydd cadeirydd wag, a bod dau neu fwy o enwebiadau yn dod i law ar gyfer unrhyw bwyllgor, bydd y Llywydd yn parhau â'r enwebiadau ar gyfer swyddi gwag eraill nes y bydd pob enwebiad wedi'i wneud.

**274.** Ar ddiwedd y broses, bydd y Llywydd yn cyhoeddi amser a dyddiad y pleidleisiau cyfrinachol lle mae angen ethol cadeiryddion pwyllgorau.

## Cynnal y bleidlais gyfrinachol

**275.** Os bydd dau enwebiad, gofynnir i'r Aelodau ddewis yr ymgeisydd y maent yn ei ffafrio. Rhaid i'r Llywydd ddatgan bod yr Aelod sydd wedi sicrhau'r nifer fwyaf o'r pleidleisiau a fwriwyd wedi cael ei ethol. Os bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer y ddau ymgeisydd yn gyfartal, rhaid cynnal pleidlais gyfrinachol arall.

**276.** Os bydd mwy na dau enwebiad, gofynnir i'r Aelodau bleidleisio drwy restru cynifer o'r ymgeiswyr ag y dymunant yn nhrefn eu dewis. Os na chaiff yr un Aelod fwy na hanner y pleidleisiau dewis cyntaf a fwriwyd, rhaid hepgor yr ymgeisydd sydd â nifer leiaf y pleidleisiau dewis cyntaf ac ailddosbarthu ei bleidleisiau rhwng yr ymgeiswyr sy'n weddill yn nhrefn blaenoriaeth. Bydd y broses hon o hepgor ymgeiswyr ac ailddosbarthu eu pleidleisiau yn cael ei hailadrodd tan y bydd un ymgeisydd yn sicrhau mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.

**277.** Os bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer y ddau ymgeisydd sy'n weddill yn gyfartal, rhaid cynnal pleidlais gyfrinachol arall.

## Trefniadau ar gyfer pleidleisiau cyfrinachol

**278.** Bydd y Llywydd yn cyhoeddi dyddiad ac amser y bleidlais gyfrinachol/pleidleisiau cyfrinachol, a fydd fel arfer mor fuan â phosibl ar ôl i'r enwebiadau gael eu gwneud. Bydd yr Aelodau yn cael gwybod drwy'r e-bost fod y bythau pleidleisio ar agor. Dyma'r trefniadau ar gyfer pleidlais gyfrinachol/pleidleisiau cyfrinachol:

- Cynhelir y bleidlais gyfrinachol mewn man penodedig yn adeilad y Senedd. Bydd y tywyswyr ar gael i roi cyfarwyddiadau i'r Aelodau.

- Bydd yr Aelodau yn cael eu papurau pleidleisio wrth fynd i mewn i'r man penodedig. Bydd eu henwau yn cael eu gwirio ar restr sydd gan swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Siambr.
- Defnyddir lliw gwahanol ar gyfer y papurau pleidleisio i ethol pob cadeirydd pwyllgor.
- Bydd yr Aelodau'n pleidleisio mewn bwth pleidleisio. Bydd papurau pleidleisio yn cael eu rhoi gan Aelodau mewn blwch pleidleisio.
- Clerc y Senedd fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r bleidlais a'r broses o gyfrif y pleidleisiau.

## Cyhoeddi'r canlyniadau

**279.** Bydd y Llywydd yn cyhoeddi canlyniadau'r bleidlais gyfrinachol/ pleidleisiau cyfrinachol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r broses gael ei chwblhau.

# 9. Grwpiau gwleidyddol

**280.** Mae Rheol Sefydlog 1.3(i) yn diffinio grŵp gwleidyddol fel “grŵp a chanddo o leiaf dri Aelod sy’n perthyn i’r un blaid wleidyddol gofrestredig a enillodd o leiaf un sedd yn etholiad blaenorol y Senedd”.

**281.** Mae Rheol Sefydlog 1.3(ii) yn darparu y caiff y Llywydd, o dan amgylchiadau eithriadol, gydnabod tri Aelod nad ydynt yn bodloni’r meini prawf yn Rheol Sefydlog 1.3(i) fel grŵp gwleidyddol.

**282.** Mae enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, rhaniad mewn plaid wleidyddol gofrestredig, argyfwng cenedlaethol, neu ddigwyddiad mawr sy'n newid ymrwymiadau gwleidyddol. Gall is-etholiadau hefyd newid cyfansoddiad gwleidyddol y Senedd mewn ffordd sy'n ei gwneud yn briodol cydnabod grŵp newydd.

# Atodiad 1 – ffurf a chynnwys cwestiynau

Dylai Aelodau gydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn wrth gyflwyno cwestiynau:

**1. Cyfrifoldebau dirprwyedig**

1.1 Gellir cyflwyno cwestiynau i'r Prif Weinidog, un o'r Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu Gomisiwn y Senedd am unrhyw fater sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau. Caiff y Prif Weinidog ateb cwestiynau llafar sy'n ymwneud ag unrhyw fater o fewn cylch gwaith unrhyw un o Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gwestiynau ysgrifenedig ar faterion polisi manwl sy'n ymwneud â chyfrifoldeb Gweinidogion Cymru gael eu cyfeirio at y Gweinidog priodol.

1.2 Gellir defnyddio cwestiynau i ofyn am wybodaeth ynghylch yr hyn y mae Gweinidogion neu'r Comisiwn wedi'i wneud mewn perthynas â materion sydd heb eu datganoli, neu faterion y tu allan i'w cyfrifoldebau, ond ni ellir eu defnyddio i ofyn am gamau gweithredu uniongyrchol ar y materion hynny.

1.3 Mae cyfrifoldebau Gweinidogion unigol Cymru wedi'u cyhoeddi ar dudalennau'r Cabinet ar wefan Llywodraeth Cymru. Nodir cyfrifoldebau Comisiwn y Senedd yn Adran 27 ac Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**2. Priod ffurf cwestiynau**

2.1 Iaith – ni dderbynnir cwestiynau sy'n cynnwys iaith y mae'r Llywydd yn ystyried ei bod yn groes i'r drefn, yn gwahaniaethu neu'n peri tramgwydd, neu iaith sy'n amharu ar urddas y Senedd.

2.2 Hyd – dylid drafftio cwestiynau fel eu bod mor gryno â phosibl (dim mwy na 50 gair). Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer cwestiynau llafar.

2.3 Ni dderbynnir Cwestiynau Agored, megis gofyn am gyfarfodydd y Prif Weinidog y diwrnod hwnnw, neu gwestiwn penagored am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rhaid i ffocws cwestiwn fod yn glir o'r ffordd y mae wedi'i eirio. Mae enghreifftiau o gwestiynau agored ac awgrymiadau eraill yn Atodiad 2.

2.4 Cwmpas – dylid geirio cwestiynau fel eu bod yn nodi pwnc penodol. Gellid ystyried bod cwestiynau yn annerbyniol os ydynt yn amwys neu'n ddiystyr.

Ni ddylai cwestiynau ofyn am ateb i gynigion damcaniaethol. Ni ddylai cwestiynau gyfleu gwybodaeth neu gyflwyno safbwynt penodol (yn bennaf).

**3. Ystyriaethau eraill**

3.1 Cwestiynau a atebwyd – yn achos cwestiynau sydd wedi cael eu hateb eisoes gan yr un Gweinidog, neu gwestiynau sy'n ailofyn, neu'n ailadrodd, i bob pwrpas, cwestiwn a atebwyd neu y gwrthodwyd ei ateb eisoes, ni chaniateir iddynt gael eu gofyn eto am gyfnod o dri mis. Fodd bynnag, efallai y bydd cwestiynau sy'n gofyn am ddiweddariad ar wybodaeth ystadegol, er enghraifft, yn dderbyniol.

3.2 Sail ffeithiol – nid yw darnau o bapurau newydd neu lyfrau ac ymadroddion neu ddyfyniadau o areithiau ac ati yn dderbyniol ond fe ellir nodi'n fyr y ffeithiau sy'n sail i gwestiwn fel rhan o gwestiwn, ar yr amod bod yr Aelod sy'n gofyn y cwestiwn yn derbyn mai nhw sy'n gyfrifol am gywirdeb ffeithiau o'r fath.

3.3 Cywirdeb datganiadau – ni chaiff cwestiynau holi a yw datganiadau a wneir yn y wasg, neu gan unigolion preifat neu gyrff answyddogol, yn gywir. Fodd bynnag, mae cwestiynau sy'n cyfeirio at gynnwys negeseuon gan lywodraeth arall at y Senedd yn dderbyniol.

3.4 Myfyrdodau personol – ni ddylai cwestiynau ystyried cymeriad nac ymddygiad Aelod. Nid yw cwestiwn yn dderbyniol os yw'n cyflwyno enwau personau mewn unrhyw ffordd oni fyddai hepgor manylion o'r fath yn golygu y byddai'r cwestiwn yn annealladwy.

3.5 Materion cyfreithiol – ni dderbynnir cwestiynau sy'n gofyn am farn ar gwestiwn cyfreithiol. Ni chaniateir cwestiynau sy'n ymwneud â mater y mae achos llys wedi'i gychwyn yn ei gylch, neu os rhoddwyd rhybudd o apêl, tan y bydd dyfarniad wedi'i wneud (Rheol Sefydlog 13.15). Nid yw cwestiynau sy'n ystyried penderfyniad llys barn yn dderbyniol. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â dedfryd a basiwyd gan farnwr neu sy'n beirniadu'r farnwriaeth yn annerbyniol (Rheol Sefydlog 13.16).

3.6 Gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd – Ni chaniateir cwestiynau sy'n gofyn am wybodaeth y gall Aelod ei chael yn hawdd ar ei liwt ei hun neu drwy ffynhonnell arall.

# Atodiad 2 – Enghreifftiau o gwestiynau agored a gyflwynwyd

1. Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023? - Cyflwynwyd i'r Prif Weinidog

*Mae'n agored gan y gall ymwneud ag unrhyw agwedd ar y portffolio Gweinidogol hwn. Gan mai i'r Prif Weinidog y cyflwynwyd y cwestiwn hwn, gellid ei ail-eirio i gynnwys manylion am unrhyw agwedd ar gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.*

2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn newydd? - Cyflwynwyd i'r Prif Weinidog

*Mae'n agored gan y gall ymwneud ag unrhyw agwedd ar y portffolio Gweinidogol hwn. Gan mai i'r Prif Weinidog y cyflwynwyd y cwestiwn hwn, gellid ei ail-eirio i gynnwys manylion am unrhyw agwedd ar gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.*

3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cyflawni yn 2023? – Cyflwynwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

*Mae'n agored gan y gall ymwneud ag unrhyw agwedd ar y portffolio Gweinidogol hwn.*

4. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella bywydau trigolion Caerdydd a'r cymoedd? - Cyflwynwyd i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

*Mae'n agored gan y gall ymwneud ag unrhyw agwedd ar y portffolio Gweinidogol hwn.*

5. Beth yw blaenoriaethau cyllidebol y Gweinidog ar gyfer y 12 mis nesaf? - Cyflwynwyd i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

*Mae'n agored gan y gall ymwneud ag unrhyw agwedd ar y portffolio Gweinidogol hwn.*

6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ei adran yng Nghanol De Cymru? - Cyflwynwyd i Weinidog yr Economi

*Mae'n agored gan y gall ymwneud ag unrhyw agwedd ar y portffolio hwn.*

7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc?  - Cyflwynwyd i'r Prif Weinidog

*Er ei fod yn cyfeirio at grŵp oedran penodol, mae'n agored gan y gallai ymwneud ag agweddau ar amrywiaeth eang o bortffolios Gweinidogol.*

8. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gogledd Cymru yn 2023?  - Cyflwynwyd i'r Prif Weinidog

*Er ei fod yn cyfeirio at ranbarth etholaethol yr Aelod, mae'n agored gan y gallai ymwneud ag unrhyw agwedd ar yr holl bortffolios Gweinidogol.*

9. Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer gogledd Cymru yn ystod y deuddeg mis nesaf? - Cyflwynwyd i Weinidog yr Economi

*Er ei fod yn cyfeirio at ranbarth penodol, mae'n agored gan y gallai ymwneud ag unrhyw agwedd ar yr holl bortffolios Gweinidogol.*

10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr argyfwng costau byw?  - Cyflwynwyd i'r Prif Weinidog

*Er bod y cwestiwn hwn wedi'i gyfyngu i fater penodol, nid yw ffocws y cwestiwn hwn yn glir, gan nad yw'n rhoi unrhyw arwydd pa wybodaeth sy'n cael ei cheisio na pha un o bolisïau'r llywodraeth y mae'r cwestiwn yn ymwneud ag ef.*

11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Cyfoeth Naturiol Cymru? - Cyflwynwyd i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

*Er bod y cwestiwn hwn wedi'i gyfyngu i ran penodol o'r portffolio, nid yw ffocws y cwestiwn hwn yn glir, gan nad yw'n rhoi unrhyw arwydd pa wybodaeth sy'n cael ei cheisio na pha un o bolisïau'r llywodraeth y mae'r cwestiwn yn ymwneud ag ef.*

Cwestiynau y gellid eu gofyn yn lle'r uchod

1. Pa gamau y  bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2023 i helpu'r economi wledig?
2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol yn y flwyddyn newydd?
3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau addysg uwch y mae'n bwriadu eu cyflawni yn 2023?

4. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd ~~i wella bywydau trigolion~~ i wella trafnidiaeth gyhoeddus i drigolion Caerdydd a’r cymoedd?

5. Beth yw blaenoriaethau cyllideb y Gweinidog ar gyfer mynd i'r afael â thlodi dros y 12 mis nesaf?

6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ei hadran o ran cynorthwyo busnesau yng Nghanol De Cymru?

7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau swyddi i bobl ifanc?

8. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer economi Gogledd Cymru yn 2023?

9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yng ngogledd Cymru yn ystod y deuddeg mis nesaf?

10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â’r argyfwng costau byw?

11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru?